



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Papur Gwyn - Crynodeb o'r ymatebion

Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad

Gorffennaf 2017 (Diwygiedig Hydref 2017)

Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad (Diwygiedig Hydref 2017)

Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Cynnwys

		Tudalen
1.	Cyflwyniad	2
2.	Trosolwg o'r Ymatebion	3
3.	Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau Penodol yr Ymgynghoriad	4
4.	Y Camau Nesaf	57
5.	Rhestr yr Ymatebwyr	58

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad' am 10 wythnos rhwng 31 Ionawr a 11 Ebrill 2017. Cafodd y cyfnod ymgynghori ei gwtogi rhywfaint oherwydd yr etholiadau llywodraeth leol oedd yn cael eu cynnal ar 4 Mai 2017, ac o ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu helaeth a gynhaliwyd yn ystod tymor yr hydref 2016 i ddatblygu'r cynigion yr ymgynghorwyd yn eu cylch.

1.2 Roedd y Papur Gwyn yn pennu trefniadau arfaethedig ar gyfer gwaith rhanbarthol; swyddogaeth gryfach i gynghorau a chynghorwyr; fframwaith ar gyfer unrhyw uno gwirfoddol yn y dyfodol; ac yn amlinellu'r ffordd ymlaen ar gyfer cynghorau cymuned. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn gofyn am safbwyntiau cychwynnol ar gyfres o ddiwygiadau i drefniadau llywodraeth leol.

1.3 Ar 29 Mawrth 2017, bu'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn craffu ar Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â diwygio llywodraeth leol yn unol â'r hyn a nodir yn y Papur Gwyn.

1.4 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn (yn Adran 3).

1.5 Ers cyhoeddi ym mis Gorffennaf, mae 45 o ymatebion eraill wedi dod i law. Mae'r ymatebion hyn wedi'u dadansoddi ac wedi'u cynnwys yn y ddogfen ddiwygiedig hon.

2. Trosolwg o'r Ymatebion

2.1 Cafwyd cyfanswm o 214 o ymatebion gan sefydliadau ac unigolion. Derbyniwyd nifer bach o ymatebion ar ôl y dyddiad cau, ond mae'r rhain wedi cael eu hystyried.

2.2 Dyma nifer yr ymatebwyr yn ôl eu math:

Math o Ymatebydd	Rhif	%
Asiantaeth Llywodraeth / corff sector cyhoeddus arall	50	23
Cyngor tref neu gymuned	40	19
Corff cynrychioladol / asiantaeth neu gorff proffesiynol	38	18
Aelod o'r cyhoedd	30	14
Cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir ¹	20	9
Plaid neu grŵp gwleidyddol	4	2
Undeb llafur	4	2
Aelod etholedig	2	1
Y Trydydd Sector	2	1
Arall	24	11
Cyfanswm	214	100

2.3 Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Adran 5.

2.4 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar y prif benodau canlynol o'r Papur Gwyn:

- Gweithio'n Rhanbarthol
- Uno Gwirfoddol
- Fframwaith ar gyfer Arweinyddiaeth Leol
- Arwain Ardaloedd Lleol
- Cyngorau Cymuned
- Etholiadau a Phleidleisio

2.5 Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn cwestiynau mewn perthynas ag asesiadau effaith penodol a gafodd eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Papur Gwyn.

2.6 Darperir crynodeb o'r ymatebion o dan bob un o brif benodau'r Papur Gwyn, yn ogystal â'r cwestiynau a holwyd yn yr ymgynghoriad, yn Adran 3.

¹ Ymatebodd 19 o'r prif awdurdodau lleol. Mae'r ffigurau yn cynnwys ymatebion gan Bwyllograu unigol awdurdodau lleol


3. Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau Penodol yr Ymgynghoriad

Gweithio'n Rhanbarthol

C1. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ystyried 'profion' fel fframwaith wrth ystyried gweithio'n rhanbarthol.

a) A ydych yn credu bod y 'profion' sydd wedi'u hamlinellu o gymorth i roi strwythur i syniadau?

Nifer yr ymatebwyr	114
Cytuno	58
Cytuno mewn egwyddor	42
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	7
Anghytuno	7



3.1.1 Roedd tuedd gref i gytuno â'r syniad ei bod yn briodol ystyried 'profion' fel fframwaith wrth ystyried gweithio'n rhanbarthol. Roedd hanner yr ymatebwyr yn cytuno, a'r consensws ymysg yr ymatebwyr hyn oedd bod y dull hwn o wneud penderfyniadau, sy'n seiliedig ar ffordd gyfannol o ddiwallu anghenion pobl a gwella lles, yn gam cadarnhaol.

3.1.2 Roedd ychydig yn llai na 40% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y cynnig o gymorth er mwyn ystyried manteision gweithio'n rhanbarthol, ond hefyd yn codi pwyntiau ynghylch eglurder. Roedd rhai o'r pwyntiau hyn yn gwneud ymholiadau ynghylch gweithredu, dehongli a goruchwyllo'r profion hyn; tra bo eraill yn datgan bod y profion yn gorbwysleisio materion strwythurol ar eu ffurf bresennol. Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu p'un ai a fyddai'r profion yn cael eu rhoi ar waith yn unffurf mewn gwahanol ardaloedd, neu a fyddai ystyriaethau gwahanol ar gyfer cymunedau cefn gwlad.

3.1.3 Ymysg awdurdodau lleol, roedd yr ymateb yn dilyn yr un patrwm – tua hanner yn cytuno a'r hanner arall yn cytuno mewn egwyddor.

b) A oes profion neu ystyriaethau eraill y gellid eu defnyddio hefyd?

3.1.4 Cynigiodd 82 o ymatebwyr mwy na 110 o syniadau am ystyriaethau a phrofion ychwanegol a allai fod yn ddefnyddiol fel fframwaith wrth ystyried gweithio'n rhanbarthol.

3.1.5 Yr ymateb mwyaf cyffredin (10%) oedd y dylid cael prawf sy'n dangos y byddai gwneud y gwasanaeth penodol yn rhanbarthol yn arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer dinasyddion a'u cymunedau.

3.1.6 Yr ymateb mwyaf cyffredin ond un oedd y dylid ystyried darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn fwy manwl, a'r 'pum dull o weithio' yn benodol, a ddylai fod yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau a threfniadau llywodraethu ym mhob corff cyhoeddus.

3.1.7 Y thema a gafodd ei hailadrodd fwyaf ond dau oedd bod angen prawf i sicrhau bod digon o atebolrwydd cadarn yn lleol ar gyfer y gwasanaeth rhanbarthol.


3.1.8 Gwnaeth nifer o awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ymholiadau ynghylch sut roedd y profion yn perthyn i'w gilydd. Argymhellodd rhai cyrff iechyd y dylai asesiad o'r effaith ar iechyd gael ei ddefnyddio fel prawf ynddo'i hun. Cyfeiriodd undebau llafur at yr effeithiau y gallai gwneud gwasanaeth yn rhanbarthol eu cael ar staff a'r gweithlu ehangach. Gwnaeth unigolion a chyrff sy'n cynrychioli ardaloedd gwledig ymholiadau ynghylch sut byddai gweithio'n rhanbarthol yn effeithio ar hygyrchedd gwasanaethau.

3.1.9 Mae negeseuon cyffredin pellach sy'n ymwneud â sut byddai unrhyw gorff rhanbarthol newydd yn rhyngweithio â rhanddeiliaid ehangach (er enghraifft, y GIG); ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion; a'r effaith ar dderbyn / darparu gwasanaeth yn Gymraeg.

C2. Yn y Papur Gwyn hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nifer o feysydd y mae'n credu y dylid eu darparu ar sail ranbarthol.

a) A ydych yn cytuno y dylid darparu'r meysydd hyn ar sail ranbarthol?

Nifer yr ymatebwyr	120
Cytuno	50
Cytuno yn amodol ar y sylwadau	36
Cytuno os caiff yr achos busnes ei brofi	9
Anghytuno	8
Anghytuno – yn y ffurf arfaethedig	6
Arall	11



3.2.1 Roedd y Papur Gwyn yn cynnig y dylai'r meysydd gwasanaeth canlynol gael eu darparu ar lefel ranbarthol: datblygiad economaidd; trafnidiaeth; cynllunio defnydd tir a rheoli adeiladau; gwasanaethau cymdeithasol; gwelliant addysgol; anghenion dysgu ychwanegol; ac amddiffyn y cyhoedd.

3.2.2 Mynegodd mwy na 100 o randdeiliaid eu barn naill ai ar yr holl feysydd gwasanaeth a grybwyllwyd, neu ar y rheini a oedd yn berthnasol i'w sefydliad. Roedd y mwyafrif sylweddol (80%) yn cytuno y dylai'r meysydd hyn gael eu darparu yn ranbarthol, yn amodol ar sylwadau penodol ac achosion busnes. Roedd 5% o'r ymatebion yn anghytuno â'r cynnig yn ei gyflwr presennol, ond nid oeddent o reidrwydd yn erbyn y cysyniad o weithio'n ranbarthol, ac roedd 7% yn anghytuno â'r cynnig.

3.2.3 Roedd tua un rhan o dair o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, ond yn mynegi sylwadau neu bryderon penodol, fel arfer mewn perthynas ag agwedd benodol ar wasanaeth yn cael ei darparu'n ranbarthol. Er enghraifft, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gael eu gwneud yn lleol, ond yn cytuno y gallai'r gwaith o gynllunio defnydd tir a rheoli adeiladau gael ei ddarparu'n ranbarthol.

3.2.4 Gyda'i gilydd, nid oedd ymatebion yr awdurdodau lleol mor groesawgar â'r ymateb ehangach gan randdeiliaid. Roedd y mwyafrif yn cytuno ar y cyfan, ac eithrio ambell gafeat; awgrymodd eraill na fyddent ond yn hapus â'r cynnig pe bai achos busnes cryf i'w gefnogi; a themlai chwarter na ddylai Llywodraeth Cymru eu gorfodi i weithio'n rhanbarthol.

Yn gyffredinol, roedd asiantaethau'r llywodraeth neu gyrff eraill y trydydd sector, gan gynnwys byrddau iechyd lleol, comisiynwyr ac awdurdodau'r heddlu, a gwasanaethau tân ac achub, yn cefnogi'r cynnig heb gafeat.

3.2.6 Roedd cyrff cynrychioladol, cymdeithasau a grwpiau proffesiynol yn tueddu i gytuno, ond roedd ganddynt hefyd rai pryderon ynghylch nodweddion penodol, ac roedd eraill hefyd yn cytuno y dylid darparu achosion busnes newydd cyn gorfodi gwaith rhanbarthol.

b) Pa ffactorau ymarferol y dylem eu hystyried wrth symud ymlaen â'r cynigion hyn?

3.2.7 Cyflwynwyd amrywiaeth helaeth o faterion ymarferol roedd angen eu hystyried gan 105 o randdeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn. Roedd rhywfaint o gonsensws ynghylch nifer bach o awgrymiadau. Roedd y rhain yn cynnwys y farn y dylai swyddogaethau trwyddedu a gorfodi penodol gael eu cynnal ar lefel leol oherwydd pwysigrwydd yr amgylchiadau a gwybodaeth leol, er bod lle i wneud gwaith amddiffyn y cyhoedd ar lefel ranbarthol. Cyfeiriodd rhanddeiliaid eraill at yr angen i leihau cymhlethdod er mwyn gweithio mor effeithlon â phosibl a chynyddu dealltwriaeth y cyhoedd.

3.2.8 Roedd materion eraill a godwyd yn cynnwys, er enghraifft, bryderon am leoliad daearyddol a hygyrchedd y gwasanaethau, ariannu trefniadau rhanbarthol a'r goblygiadau ar gyfer staff, gan gynnwys cyfraddau cyflog gwahaniaethol a theithio ychwanegol (ac effaith bosibl hyn ar wasanaethau). Amlygwyd hefyd bwysigrwydd craffu democrataidd effeithiol yng nghyswllt gwaith rhanbarthol er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau atebolrwydd ar gyfer pobl leol, gan gasglu barn pobl ifanc a rhannu arfer gorau.

c) Pa bwerau 'ategol' eraill fyddai eu hangen i sicrhau bod y swyddogaethau'n cael eu harfer yn effeithiol ar lefel ranbarthol?

3.2.9 O'r 43 o randdeiliaid a wnaeth sylw, roedd chwech o'r farn nad oedd angen pwerau ategol. Fel arall, nid oedd llawer yn gyffredin rhwng safbwyntiau'r rhai a ymatebodd. Amlygodd rhai bod angen gallu adolygu trefniadau gwaith a mynd i'r afael â'r rheini yr ystyriwyd nad oeddent yn gweithio, gan gynnwys rhoi pwerau i awdurdodau lleol cysylltiedig er mwyn gallu eu 'hamddiffyn' eu hunain a'u cymunedau pe bernir bod trefniadau rhanbarthol yn methu.


3.2.10 Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys ysgafnhau'r gofynion yng nghyswllt archwilio, arolygu a rheoleiddio er mwyn annog hyblygrwydd a chydweithio ac annog cyngorau i gymryd mwy o risgiau. Awgrymwyd hefyd

datganoli pwerau, y gofyniad am dryloywder a chaniatáu i lywodraeth leol gadw a chodi mwy o'i chyllid ei hun.

C3. Yn y Papur Gwyn hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nifer o feysydd y mae'n credu y gellid eu darparu ar sail ranbarthol.

a) A ydych yn credu y dylid gosod gofyniad ar Awdurdodau Lleol i weithio'n rhanbarthol i ddarparu'r swyddogaethau hyn?

Nifer yr ymatebwyr	93
Cytuno	41
Cytuno'n rhannol	20
Anghytuno, ond gyda hyblygrwydd	19
Anghytuno	9
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	4



3.3.1 Nododd y Papur Gwyn fod swyddogaeth tai yr awdurdod lleol yn gweithredu ar lefel strategol (ee tai sydd angen eu hasesu) ac ar lefel weithredol (ee swyddogaethau landlordiaid a digartrefedd). Roedd y Papur Gwyn yn nodi byddai rhagor o ystyriaeth yn cael ei roi i beth fyddai'r ffordd orau i agweddau strategol y sector tai a ddarperir ar sail patrwm rhanbarthol ryngweithio â'r gwasanaethau sy'n dibynnu ar fwy o staff, megis trechu digartrefedd, a fydd yn parhau i gael eu darparu'n lleol.

3.3.2 Gofynnwyd am safbwyntiau ynghylch y posibilrwydd o ehangu trefniadau gweithio ar y cyd sydd eisoes yn bodoli ar gyfer trin gwastraff ac ailgylchu ysbwriel i rannau eraill o'r gwasanaeth, fel casglu. Gwahoddwyd safbwyntiau ar y posibilrwydd o gyfuno gweithgarwch presennol dros amser er mwyn sicrhau patrwm mwy cyson â meysydd gwasanaeth eraill.

3.3.3 Awgrymodd y Papur Gwyn hefyd bod gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Thimau Troseddau leuenctid reswm dros ystyried symud tuag at ddefnyddio patrymau tebyg i'r rhai ar gyfer gwasanaethau eraill sy'n cefnogi eu gwaith.

3.3.4 O'r 93 o randdeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 66 (66%) naill ai yn cytuno neu'n cytuno'n rhannol y dylai fod rhaid i awdurdodau lleol weithio'n rhanbarthol i gyflawni'r swyddogaethau hyn. O'r 17 o awdurdodau lleol a ymatebodd, roedd 11 naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n rhannol. Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid hynny, gan gynnwys llywodraeth leol oedd ddim yn cytuno, yn cytuno ar y sail y dylai awdurdodau lleol fod â'r rhyddid i bennu p'un ai a ddylai gwasanaethau penodol gael eu darparu ar y cyd ac ar ba sail, pan oedd hyn yn cael ei gefnogi gan achos busnes penodol.

b) A oes ystyriaethau ymarferol eraill y dylem fod yn ymwybodol ohonynt?

3.3.5 Cafwyd amrywiaeth o sylwadau gan 50 o randdeiliaid. Eto, nid oedd llawer yn gyffredin rhwng y safbwyntiau. Fodd bynnag, nododd nifer bach ohonynt gysylltiadau rhwng swyddogaethau tai strategol a chynllunio defnydd tir strategol, yn ogystal â pha mor bwysig yw cydweithrediadau sy'n bodoli eisoes er mwyn darparu gwasanaethau fel trosglwyddo stoc tai. Roedd gwahaniaeth barn rhwng y posibilrwydd o weithio'n rhanbarthol yng nghyswllt swyddogaethau, a'r farn na fyddai gwasanaethau ardal sefydlog (fel casglu gwastraff, glanhau strydoedd, parciau) yn cael budd o weithio'n rhanbarthol. Amlygwyd y byddai angen mynd i'r afael â'r gwahaniaethau rhwng dulliau a pholisïau awdurdodau lleol yng nghyswllt casglu gwastraff yn lleol. Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch p'un ai a fyddai rhanbartholi diogelwch cymunedol a chyfiawnder yr ifanc yn fuddiol neu beidio. Yn achos Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, byddai angen ystyried eu cysoni â strwythurau sy'n bodoli eisoes, fel Unedau Rheoli Sylfaenol yr Heddlu. Cafwyd hefyd safbwynt mai'r peth gorau i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ei wneud yw mynd i'r afael â materion lleol yn eu hanfod.

C4. A oes unrhyw swyddogaethau eraill a fyddai'n elwa o ddull systematig o weithio'n rhanbarthol?

3.4.1 Cafwyd amrywiaeth o sylwadau ac awgrymiadau gan y 58 o randdeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn. Manteisiodd rhai ar y cyfle i fynegi eu barn am waith rhanbarthol yn gyffredinol, gan gynnwys yr angen am achos busnes cryf a phennu cydweithrediadau yn lleol.


Roedd awgrymiadau penodol eraill i'w hystyried ymhellach yn cynnwys:

- Archifau
- Y celfyddydau a gwasanaethau diwylliannol (gan gynnwys llyfrgelloedd ac amgueddfeydd)
- Gofal plant
- Diogelwch cymunedol (gan gynnwys Teledu Cylch Cyfyng)

- Cofrestru etholiadol
- Cynllunio ar gyfer argyfwng
- Y gwasanaethau brys
- Diogelwch mewn digwyddiadau
- Y gwasanaethau tân ac achub
- Iechyd a diogelwch
- Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol
- Cynnal priffyrdd
- Gwasanaethau cyfreithiol a phridiant tir
- Ecosystem / seilwaith gwyrdd
- Cadwraeth yr amgylchedd naturiol
- Rheoleiddio tai yn y sector preifat
- Iechyd y cyhoedd
- Ymchwilio i dechnolegau newydd a'u datblygu
- Gofal cymdeithasol
- Gwasanaethau cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol (gwasanaethau traws-sector)
- Goleuadau stryd
- Cynllunio trefol
- Rheoli cerbydau
- Hyfforddi'r gweithlu
- Gwasanaethau ieuenctid

C5. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid cael hyblygrwydd i alluogi Gweinidogion Cymru i bennu swyddogaethau eraill lle mae gweithio rhanbarthol yn orfodol, yn dilyn ymgysylltu â llywodraeth leol a phartneriaid eraill. A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Pam?

Nifer yr ymatebwyr	85
Cytuno	26
Cytuno – yn amodol ar achos busnes	17
Cytuno o dan rai amgylchiadau yn unig	4
Anghytuno	32
Arall / dim digon o fanylion	6




3.5.1 Roedd ychydig yn fwy na 50% o'r 85 o randdeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno neu'n cytuno'n rhannol. Yn gyffredinol, roedd y rheini a oedd yn rhoi eu sylwadau yn credu y dylai fod yr hyblygrwydd hwn ar gael i Weinidogion, ond y dylai fod yn amodol ar ymgynghori â rhanddeiliaid ymlaen llaw os oes cyfiawnhad dros wneud hynny ar sail achos busnes. Argymhellodd eraill y byddai pwerau i ymyrryd yn briodol pe bai diffyg cynnydd neu fod trefniadau gwaith rhanbarthol wedi cael eu rhoi ar waith yn wael gan awdurdodau lleol.

3.5.2 Roedd y 32 (38%) o randdeiliaid a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn yn cynnwys 11 o'r 17 o awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiwn. Yn gyffredinol, roedd yr awdurdodau lleol a oedd yn anghytuno yn credu y dylai cydweithio fod yn drefniant gwirfoddol, lle bo achos busnes dros newid wedi'i brofi. Byddai angen cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw ofynion gorfodol er mwyn sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn wynebu goblygiadau anfwriadol yn sgil penderfyniadau ynghylch polisi. Mynegodd un rhanddeiliad bryder y gallai newid arweinyddiaeth awdurdodau lleol neu Weinidogion arwain at wahaniaethau gwleidyddol. Dylai lleihau unrhyw bwerau'r awdurdod lleol fod yn amlwg er budd llywodraeth well sy'n fwy ymatebol, ac nid o ganlyniad i wahaniaethau o'r fath.

C6. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylai'r trefniadau newydd atal Awdurdodau Lleol rhag defnyddio'u pwerau presennol i gyflawni swyddogaethau ychwanegol ar sail ranbarthol. A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Pam?

Nifer yr ymatebwyr	81
Cytuno	68
Cytuno mewn egwyddor	3
Anghytuno	3
Arall / angen eglurhad	7



3.6.1 Roedd mwyafrif helaeth (84%) yr 81 o randdeiliaid a ymatebodd yn cytuno y dylai bod hyblygrwydd yn y system i ymgysylltu â llywodraeth leol er mwyn cyflawni ei huchelgais, a nodwyd yn flaenorol, i weithio'n rhanbarthol y tu hwnt i'r lefel ofynnol a bennir gan Lywodraeth Cymru.

3.6.2 Dywedwyd bod gan awdurdodau lleol hanes da yng nghyswllt arwain ffyrdd arloesol o gydweithio ag awdurdodau lleol eraill ac yn fwy eang, ac ni ddylid cyfyngu ar hyn mewn unrhyw ffordd. Bydd sefyllfaoedd yn codi lle bydd yr angen i wneud pethau yn wahanol yn amlwg ar lefel sylfaenol, mewn ffordd efallai na fyddai'n amlwg i'r rheini ar lefel strategol; a lle mae staff rheng flaen yn cael eu grymuso a'u parchu yn briodol, bydd hyn yn aml yn dod ganddyn nhw yn uniongyrchol.

3.6.3 Rhoddwyd rhybudd efallai na fyddai'r trefniadau hyn yn cael yr un lefel o gymhelliant na chraffu priodol. Yn naturiol, byddai ymdrechion yn canolbwyntio ar y rheini lle mae Llywodraeth Cymru yn gorfodi trefniadau a all fod yn niweidiol i bartneriaethau a syniadau da eraill.

3.6.4 Awgrymwyd hefyd y dylai cydweithrediadau a sefydlir o dan y pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r 'profion' angenrheidiol a ddisgrifir yn y Papur Gwyn, yn ogystal â bod o fudd i ddinasyddion lleol a bod yn yr ardal ddaearyddol briodol.

3.6.5 Roedd y rheini a oedd yn anghytuno naill ai yn awgrymu bod angen rhagor o eglurhad neu eu bod yn erbyn cyrff rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cydfodoli.

Gwasanaethau Rhannu

C7. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid trefnu a darparu rhai gwasanaethau swyddfa gefn a thrafodiadol yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Pa wasanaethau ydych chi'n meddwl fyddai'n gweithio orau o'u trefnu a'u darparu fel hyn?

3.7.1 Nododd y Papur Gwyn fod rhoi'r gwasanaethau cyhoeddus ar waith yn ddibynnol ar wasanaethau cefnogi sylfaenol – rhai yn ymwneud â thrafodion, rhai yn arbenigol, rhai yn wynebu tuag allan a rhai ddim yn wynebu tuag allan gymaint. Roedd Llywodraeth Cymru yn credu bod nifer o'r rhesymau dros weithio'n rhanbarthol yn wir am y gwasanaethau cefnogol hyn. Roedd yr adroddiad KPMG² ym mis Mehefin 2015 yn dangos bod y costau fesul trafodyn ar gyfer swyddogaethau swyddfa gefn ar draws gwahanol awdurdodau lleol yn amrywio, ac nid oedd modd egluro hyn yn syml drwy gyfeirio at natur y gwasanaeth neu faint yr awdurdod. Roedd yn dangos y gallai sefydlu rhyw fath o wasanaeth swyddfa gefn a rennir sicrhau arbedion sylweddol y tu hwnt i'r hyn y byddai modd i awdurdodau ei sicrhau drwy arolygu a rhesymoli eu gwasanaethau er mwyn eu gwneud yn gyson â'r rhai sy'n perfformio'n dda.

3.7.2 Roedd y farn wedi'i rhannu ynglŷn â pha mor fuddiol fyddai darparu rhywfaint o wasanaethau trafodion a swyddfa gefn yn rhanbarthol. Roedd gan awdurdodau lleol, a oedd yn cyfateb i 23% o'r ymatebwyr, farn gymysg ynglŷn â'r cynnig i rannu gwasanaethau swyddfa gefn, ac roedd llawer o ymatebion yn herio pa mor gadarn oedd yr astudiaeth KPMG a'r arbedion posibl oedd ar gael. Roedd awdurdodau lleol wedi lleihau capasiti corfforaethol yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf a gallent ddangos bod y gwasanaethau corfforaethol oedd ganddynt ar ôl yn ddigon darbodus ac effeithlon a bod 'deddf enillion lleihaol' yn anochel. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o awdurdodau yn cydnabod y potensial ar gyfer diwygio ac yn gefnogol mewn egwyddor, yn enwedig o ran dulliau is-ranbarthol. Roedd cynnydd eisoes yn cael ei wneud drwy sefydlu swyddogaethau swyddfa gefn ar y cyd ar sail patrymau cydweithredol a oedd yn dod yn fwyfwy rhanbarthol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd Model Gwasanaethau a Rennir y GIG yn ddeniadol yng nghyd-destun llywodraeth leol oherwydd bod gwasanaethau awdurdodau lleol yn fwy amrywiol a chymhleth, ac nid yw awdurdodau lleol yn gweithio ar sail modelau cyffredinol yn yr un modd â'r GIG. Nodwyd bod gan fyrddau ieuchyd lleol lawer o adnoddau corfforaethol a 'swyddfa gefn' lleol o hyd.

3.7.3 Er gwaethaf rhai amheuon, awgrymodd awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill amrywiaeth eang o wasanaethau a allai fod yn addas ar gyfer trefniadau a rennir. Yr amlycaf o blith y rhain oedd TGCh, cyflogres, adnoddau dynol (gan gynnwys recriwtio a gwasanaethau ieuchyd galwedigaethol), refeniw a buddiannau, caffael, cynnal a chadw asedau a'r iaith Gymraeg.

² <http://gov.wales/topics/localgovernment/publications/welsh-local-authorities-administrative-cost-review/?skip=1&lang=cy>

C8. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod goresgyn problemau rhannu data yn allweddol er mwyn cyflawni swyddogaethau swyddfa gefn ar ffurf rhanbarthol.

a) Pa rwystrau deddfwriaethol sydd wedi creu anawsterau o ran sicrhau cynnydd wrth rannu gwasanaethau?

b) Sut mae'r rhain wedi cael eu goresgyn neu sut y gellid gwneud hynny?

c) Pa heriau sy'n codi wrth rannu data?

3.8.1 Nodwyd ychydig o rwystrau deddfwriaethol a oedd yn cyfyngu ar rannu data. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru. Nododd rhai mai diwylliant swyddfeydd a chamddeall deddfwriaeth bresennol sydd wedi achosi problemau yng nghyswllt rhannu data.

3.8.2 Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn rhannu'r safbwynt hwn ac, yn ei gwaith, y mae wedi tueddu i ddod ar draws rhwystrau ymarferol yn hytrach na rhwystrau cyfreithiol llym yng nghyswllt rhannu data. Roedd y rhain yn cynnwys gofal dealladwy, ond hefyd ddiffyg dealltwriaeth fanwl o Ddeddf Diogelu Data 1998.

3.8.3 Mynegodd nifer o randdeiliaid bryder y gallai'r sefyllfa hon waethgu pan ddaw'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol i rym fis Mai 2018. Gan y byddai'r Rheoliadau hyn yn ddieithr, byddent yn cyfrannu at ansicrwydd a diffyg dealltwriaeth fanwl swyddogion llywodraeth leol o ddeddfwriaeth berthnasol. Hefyd, gallai'r duedd i fod yn ofalus ddwysáu o ganlyniad i lefel uchel y dirwyon posibl a ddaw yn sgil y Rheoliadau.

3.8.4 Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at yr angen am 'Asesiadau o Effaith Preifatrwydd'; ar ddechrau unrhyw gydweithrediad newydd, er mwyn gwneud y berthynas rhwng y naill bartner a'r llall yn glir mewn contractau, ac i sicrhau bod cyfrifoldebau yng nghyswllt rheoli cofnodion yn glir.

3.8.5 Crybwyllwyd hefyd ddiffyg parodrwydd swyddogion Rheoli Gwybodaeth arbenigol pob sefydliad i ymgysylltu yn ystod y camau cynnar. Nid y swyddogion hyn yw'r rhai sy'n gyfrifol am ddrafftio'r cytundebau cyfreithiol bob amser. Roedd hyn yn ymwneud â deall y gyfraith a'r modd y caiff ei chymhwyso ond, yn bwysicach byth, yn ymwneud â deall gwybodaeth a sut caiff ei rheoli drwy gydol ei hoes.

3.8.6 Rhoddwyd nifer o enghreifftiau ymarferol ynghylch sut mae rhwystrau'n cael eu goresgyn, fel sefydlu Grŵp Data Agored o dan nawdd Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae hyn yn defnyddio arbenigedd dechnegol y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir presennol ar gyfer TGCh, gan gynnwys nifer o awdurdodau lleol De Ddwyrain Cymru a Heddlu Gwent. I ddechrau, mae'r Grŵp yn casglu'r data ar berchnogaeth tir a defnyddio cerbydau, ond nid yw'r potensial ar gyfer rhannu data ledled sefydliadau yng

Nghymru, er mwyn cael darlun mawr a chynllunio a darparu gwasanaethau yn unol â hynny, wedi cael ei ddatblygu'n ddigonol.

3.8.7 Yn achos y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir rhwng cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg, roedd gofyn i swyddogion Rheoli Gwybodaeth, a staff y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir, ymroi llawer o'u hamser i sicrhau bod gan y gwasanaeth lwyfan i gael y gorau o'r buddiannau a gafodd eu hyrwyddo ar ddechrau'r cydweithio.

3.8.8 Nodwyd Rhentu Doeth Cymru fel enghraifft o fodel cenedlaethol hefyd, a oedd yn wynebu ei heriau ei hun o safbwynt Rheoli Gwybodaeth. Llwyddodd Rhentu Doeth Cymru i gaffael system TG a'i rhoi ar waith, a oedd yn golygu bod data yn cael ei rannu â'r cyhoedd a rhwng asiantaethau, a'r prif gyngor oedd y Rheolydd Data. O brofiad, roedd yn amlwg bod angen i Reoli Gwybodaeth fod yn fater blaenllaw i'w ystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch modelau cyflawni newydd.

3.8.9 Nodwyd amrywiaeth o heriau y mae rhannu data yn eu cyflwyno. Yn bennaf ymysg y rhain oedd anghydnawsedd technolegol, rhwystrau diwylliannol arwyddocaol, a diogelwch data personol a gwybodaeth sensitif.

C9. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai rhannu rhagor o swyddogaethau swyddfa gefn o gymorth. Ceir nifer o opsiynau:

- ***Galluogi Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ddarparu gwasanaethau i lywodraeth leol (a sefydliadau eraill)***
- ***Sefydlu model tebyg i ddarparu gwasanaethau swyddfa gefn i lywodraeth leol (a sefydliadau eraill)***
- ***Sefydlu model arall i ddarparu gwasanaethau swyddfa gefn i lywodraeth leol (a sefydliadau eraill).***

a) Pa un o'r opsiynau ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf priodol i gefnogi gweithio rhanbarthol orau?

b) Pa fodelau eraill allai fod yn effeithiol a pha gamau fedrai Gweinidogion Cymru eu cymryd i alluogi neu i annog gweithredu modelau eraill dan arweiniad llywodraeth leol?

Nifer yr ymatebwyr

Adeiladu ar Gydwasanaethau GIG Cymru

Model gwahanol



Dim digon o dystiolaeth

Nid model Cydwasanaethau GIG Cymru

Model tebyg

Dim un o'r opsiynau

Arall



3.9.1 Nid oedd y 54 o randdeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn gytûn ynghylch cael un model ar gyfer gwasanaeth a rennir, ac nid oedd awdurdodau lleol na byrddau iechyd lleol yn gefnogol iawn i'r syniad o ehangu gwasanaethau Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru.

2.9.2 Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r farn nad oedd model y GIG yn ddeniadol yng nghyd-destun llywodraeth leol oherwydd, fel y nodwyd eisoes, mae gwasanaethau awdurdodau lleol yn fwy amrywiol a chymhleth. Hefyd, roedd gan fyrdau iechyd lleol lawer o adnoddau corfforaethol a 'swyddfa gefn' lleol o hyd.

3.9.3 Ystyriwyd nad oedd yn syniad doeth ceisio integreiddio gwasanaethau swyddfa gefn llywodraeth leol â Phartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru oherwydd pa mor gymhleth ac amrywiol yw'r gweithgareddau y mae gwasanaethau cefnogi a ddarperir gan lywodraeth leol yn ymgymryd â hwy, yn ogystal â'u graddfa a'u cwmpas. Fodd bynnag, lle roedd achos busnes dros hynny, mynegodd rhai ymatebwyr ddiddordeb mewn symud ymlaen gyda chydweithio rhanbarthol yng nghyswllt swyddogaethau swyddfa gefn neu wasanaethau rheng flaen, yn ogystal â datblygu trefniadau sy'n bodoli eisoes ac yn deillio o weithio'n rhanbarthol yn fwy cyffredinol.

3.9.4 O ran modelau amgen, roedd rhai awdurdodau lleol yn cefnogi'r syniad y gallai awdurdodau lleol bennu a datblygu modelau rhanbarthol neu is-ranbarthol blaengar eu hunain. Byddai rhaglenni buddsoddi cenedlaethol yn gymhellant gwerthfawr, fel y profwyd yn achos y consortia gwastraff rhanbarthol. Er nad yw'n boblogaidd, dylid ymchwilio i'r model awdurdod cyfun ar gyfer darparu gwasanaethau a swyddogaethau strategol.

3.9.5 Nodwyd y byddai llawer o awdurdodau lleol a'u partneriaid mewn undebau llafur yn ystyried modelau amgen sy'n cynnwys rhoi gwaith allan ar gontract i'r sector preifat yn annerbyniol. Fodd bynnag, ystyriwyd y gallai creu sefydliad hyd braich sy'n eiddo i'r cyhoedd, gyda phwerau i rannu arbenigedd

a chapasiti dros ben er mwyn ffurfio partneriaethau â'r sector preifat, esgor ar ddatrysiadau arloesol a fyddai'n amddiffyn staff yn briodol.

3.9.6 Nododd Cyngor Sir Penfro fod ganddo ddiddordeb mewn ymchwilio i ateb yng nghyswllt gwasanaethau swyddfa gefn gyda'i bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol fel rhan o'i gynigion ar gyfer 'Prospectws Penfro'.

3.9.7 Awgrymwyd hefyd bod model yn bodoli sydd i weld yn gweithio, sef clwstwr o awdurdodau rhanbarthol neu is-ranbarthol yn eu hanfod yn gwerthu eu gwasanaethau i eraill o dan gontract ffurfiol. Mae hyn yn caniatáu i ganolfannau rhagoriaeth dyfu a datblygu, sy'n galluogi awdurdodau i ddarparu gwasanaethau i eraill yn fwy parod (heb anghydfod) mewn modd sydd wedi'i reoli a'i gynllunio'n well.

3.9.8 Roedd modelau posibl eraill a awgrymwyd yn cynnwys darparu rhaglenni ysgolion 21C drwy gonsortia a darparu gwasanaeth trin gwastraff drwy gonsortia aml-awdurdod.

3.9.9 Awgrymwyd dull rheoli asedau cydweithredol mwy rhagweithiol ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru, gyda'r potensial i integreiddio gwasanaethau, gan gynnwys rheoli asedau ac ystadau.

C10. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod deall a chynllunio asedau'r sector cyhoeddus ar y cyd yn hanfodol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf. I wneud hyn byddai angen mapio asedau ystadau a'r bwriadau ar gyfer y dyfodol yn rhanbarthol.

Sut y gellid cyflawni'r gwaith hwn o lywodraethu a phenderfynu ar y cyd yn y ffordd orau?

3.10.1 Y dull a awgrymwyd amlaf oedd bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrifol am y gwaith mapio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag asedau'r sector cyhoeddus, er enghraifft, y gwaith a wnaed yn y maes hwn yng Nghwm Taf. Er eu bod yn cydnabod bod angen cydweithio ag eraill, roedd rhai rhanddeiliaid yn credu bod cadw'r gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau yn lleol yn hanfodol.


3.10.2 Nodwyd y dylai fod awdurdodau lleol, ynghyd â chyrff eraill y sector cyhoeddus, wedi llwyddo i gofrestru eu holl ystadau bron drwy'r broses wirfoddol ar gyfer cofrestru tir, yn ogystal â mabwysiadu ac esblygu eu Cynllun Rheoli Asedau. Gallai'r rhain gael eu cyfuno i ffurfio rhan o lif gwaith y Gweithgor Asedau Cenedlaethol er mwyn deall yr ystâd gyhoeddus. Gyda chylch gwaith penodol o ran sut y gellid cydlynu'r ystâd gyhoeddus, gallai'r Grŵp hwn gymryd yr awenau o ran cysoni'r wybodaeth sydd wedi'i chasglu a'i chanfod ac y mae adroddiadau wedi'u creu yn ei chylch. Hefyd, gallai rhannu Cynllun Rheoli Asedau sydd wedi'i sefydlu, polisïau a gweithdrefnau, ac ymarfer gorau, yn ogystal ag anelu at Gynllun Rheoli Asedau trosfwaol ar gyfer ardal benodol, sicrhau effeithlonrwydd a chysondeb yng nghyswllt

cynlluniau cyflawni perthnasol, a fyddai'n canolbwyntio ar ardaloedd daearyddol (mae angen diffinio'r patrwm economaidd) neu briodweddau neu strategaethau penodol.

3.10.3 Croesawyd buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fapio asedau ledled Cymru, yn ogystal â'r gwaith arfaethedig i ddatblygu 'Adnodd ymarfer gorau ar gyfer Cydweithio'n Rhanbarthol yng nghyswllt Asedau'.

b) Ai dilyn y patrwm economaidd ehangach [ar gyfer gwaith rhanbarthol arfaethedig] yw'r ffordd gywir?

Nifer yr ymatebwyr	40
Cytuno	15
Cytuno dan rai amgylchiadau	10
Anghytuno	4
Arall	11



Sylwer bod 'Arall' yn y siart gylch yn cynnwys unrhyw ymateb nad oedd yn bendant yn cytuno neu'n anghytuno

3.10.4 O'r 40 o randdeiliaid a wnaeth sylwadau, roedd 25 (63%) naill ai'n cytuno, neu'n cytuno o dan rai amgylchiadau, bod y patrwm economaidd arfaethedig ar gyfer yr ardal yn briodol ar gyfer y gwaith o gynllunio asedau.

3.10.5 Er y byddai cyfyngiadau ymarferol o ran rhesymoli asedau, credwyd po ehangaf y safbwynt, y mwyaf effeithlon fyddai'r gwaith o reoli asedau. Roedd hyn oherwydd y byddai safbwynt ehangach yn golygu bod modd canfod rhagor o gapasiti dros ben ar gyfer asedau. Fodd bynnag, awgrymwyd na ddylai hyn fod ar draul cydweithio agos rhwng partneriaid yn lleol.

Llywodraethu ac Atebolrwydd

C11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai cyd-bwyllgor wedi'i gryfhau (Cyd-bwyllgor Llywodraethu) yn fodel llywodraethu priodol ar gyfer gwasanaethau a gaiff eu darparu'n rhanbarthol. Ei bwriad yw creu fframwaith ar gyfer llywodraeth leol fel eu bod yn gallu cyflawni hyn.

a) Pa drefniadau democrataidd ar gyfer atebolrwydd a chraffu ddylai fodoli mewn model o'r fath?

3.11.1 Cafwyd mwy na 70 barn gan 73 o randdeiliaid. O'r rhain, roedd 21 naill ai'n anghytuno â'r model arfaethedig ar gyfer Cyd-bwyllgor Llywodraethu neu'n credu nad oedd digon o fanylion ynghylch y modd y caiff y pwyllgorau eu gweithredu i roi sylwadau. Yn rhannol, roedd rhanddeiliaid yn bryderus ynghylch y risg a ddaw yn sgil rhagor o gymhlethdod, biwrocratiaeth a baich gweinyddol.

3.11.2 Roedd eraill, fodd bynnag, yn credu bod Cyd-bwyllgor Llywodraethu, ynghyd â chraffu rhanbarthol ar y cyd, yn synhwyrol, ond na ddylid dyblygu gwaith rhwng y pwyllgor craffu rhanbarthol a phwyllgorau craffu unigol yr awdurdodau. Dylai un awdurdod fod yn brif awdurdod ar gyfer pwyllgor craffu rhanbarthol unigol.

3.11.3 Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid eraill yn cefnogi'r cynnig i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn helpu i lywio'r cynigion yng nghyswllt llywodraethu. Roedd y Gymdeithas yn credu bod y cynigion hyn yn rhai o agweddau mwy cymhleth a heriol y Papur Gwyn gan eu bod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod aelodau'n cael eu goruchwyllo'n briodol a bod atebolrwydd digonol yn lleol.

3.11.4 Nid ystyriwyd bod gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y model o gyd-bwyllgor llywodraethu a amlinellwyd yn y Papur Gwyn a'r model o gyd-bwyllgor sydd ar gael yn unol â deddfwriaeth gyfredol. Roedd awdurdodau o'r farn bod trefniadau llywodraethu a chydweithio presennol (ee y rheini sy'n seiliedig ar fodelau Bargeinion Dinesig) eisoes yn cael eu rhoi ar waith a bod lle i ddatblygu'r rheini yn hytrach na chyflwyno modelau llywodraethu newydd. Awgrymwyd y 'Cytundeb Cydweithio' ar gyfer Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel glasbrint.

3.11.5 Mynegwyd pryder ynghylch y risgiau hanfodol yn y model arfaethedig ar gyfer cyd-bwyllgorau rhanbarthol, oherwydd pe baent yn gallu gwneud penderfyniadau ymrwymol ynghylch ymrwymadau ac adnoddau heb awdurdod gan eu cynghorau cysylltiedig, gallai hyn danseilio atebolrwydd lleol. Hyd yn oed pe bai pwerau yn cael eu dirprwyo neu eu neilltuo i arweinydd neu aelod blaenllaw o'r cabinet, byddai hon yn cael eu hystyried yn swydd wleidyddol pe bai penderfyniadau ymrwymol am y rhanbarth yn cael eu gwneud heb gefnogaeth gan awdurdod, ac mae'n bosib na fyddai modd cynnal ei statws dros amser.

3.11.6 Awgrymwyd y dylai'r fframwaith allu bod yn hyblyg er mwyn datblygu'r strwythurau priodol yn unol ag anghenion lleol (rhanbarthol). Dylid osgoi trefniadau llywodraethu a strwythurau lle mae angen canfod adnoddau, gan eu bod yn drysu'r holl randdeiliaid ac nid ydynt yn ychwanegu gwerth.

3.11.7 Awgrymodd nifer o randdeiliaid y dylai Cyd-bwyllgorau Llywodraethu gynnwys cynrychiolaeth o fusnesau, cymunedau, cynghorau cymuned a chynghorau tref.

3.11.8 Cwestiynwyd y ffaith y byddai Cyd-bwyllgorau Llywodraethu a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydfodoli, gan fynegi pryder ynghylch y dryswch a'r dyblygu a allai ddeillio o hynny.


3.11.9 Awgrymwyd y dylai swyddogaethau craffu fod yn seiliedig ar ymarfer da sy'n bodoli eisoes ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, ond hefyd yn darparu atebolrwydd lleol ar faterion allweddol. Roedd trefniadau craffu rhanbarthol wedi cael eu defnyddio eisoes ar gyfer rhai swyddogaethau a byddai hyn yn briodol ar gyfer strwythurau rhanbarthol yn y dyfodol. Roedd y cyd-bwyllgor craffu a sefydlwyd i fonitro gweithrediad "Prosiect Gwyrdd", sef y prosiect rheoli gwastraff ar y cyd a sefydlwyd gan Gynghorau Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg, yn enghraifft dda o hyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod aelodau lleol sydd wedi'u hethol yn cael llais ac yn gallu dwyn cyrff rhanbarthol i gyfrif ar ran dinasyddion lleol.

3.11.10 Gwnaeth Heddlu Gogledd Cymru sylw bod y strwythur atebolrwydd presennol yn ddiffygiol. Ni fyddai'r model arfaethedig yn ddigonol i ddatrys hynny oherwydd bod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn canolbwyntio'n llwyr ar awdurdodau a chynghorau lleol, heb ystyried buddiannau a chyfraniad partneriaid o gwbl. Ar adegau, gall ymddangos bod craffu ar lefel cynghorau yn canolbwyntio mwy ar feirniadu partneriaid eraill neu wthio agenda wleidyddol benodol. Dylai unrhyw waith craffu gynnwys asiantaethau eraill a bod â sail wybodaeth well.

3.11.11 Gwnaeth Unsain Cymru sylw bod dinasyddion yn ei chael yn anodd defnyddio a deall system bresennol yr awdurdodau lleol. Mae pryderon ynghylch atebolrwydd gwasanaethau lleol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Gellir ystyried Cyd-bwyllgor Llywodraethu fel haen ychwanegol, sy'n golygu bod penderfyniadau hyd yn oed yn bellach i ffwrdd oddi wrth gymunedau nag y maent o dan y trefniadau presennol. Roedd yn ymddangos fel pe bai'n anochel y byddai atebolrwydd yn dirywio o ganlyniad i'r trefniant hwn, ond nid oedd yn ymddangos y byddai ateb effeithiol ac uniongyrchol i hyn pe bai'r dull esblygol arfaethedig hwn yn cael ei ddilyn. Un ffordd o oresgyn hyn fyddai sicrhau bod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn gyhoeddus, yn ogystal â gwahodd grwpiau rhanddeiliaid eraill sy'n cynrychioli dinasyddion, gan gynnwys undebau llafur, i ddod i'r pwyllgorau a chyfrannu. Roedd craffu cadarn yn bwysig ac mae'n angenrheidiol bod grwpiau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli dinasyddion, gan gynnwys undebau llafur, yn cael cyfle i graffu'n iawn ar benderfyniadau a chyfeiriad.

b) A ddylai pob Awdurdod Lleol sy'n rhan o'r Cyd-bwyllgor gael yr un hawliau pleidleisio neu a ddylid eu pwysoli mewn rhyw ffordd?

Nifer yr ymatebwyr	64
Hawliau pleidleisio cyfartal	33
Wedi'i bwysoli yn ôl poblogaeth	13
Dibynnu ar yr amgylchiadau	2
Model gwahanol / Anghytuno â'r model	2
Penderfyniadau Lleol	2
Arall	12



3.11.12 Roedd y rhan fwyaf (52%) o'r 64 o randdeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cefnogi hawliau pleidleisio a chynrychiolaeth gyfartal ar gyfer awdurdodau lleol ar Gyd-bwyllgorau Llywodraethu. Gwnaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sylw bod awdurdodau yn cefnogi'r hawliau pleidleisio cyfartal arfaethedig yn gyffredinol, gan ystyried mai hwn oedd y model yng nghytundebau'r Bargeinion Dinesig presennol.

3.11.13 Roedd Cyngor Caerdydd yn cefnogi hawliau pleidleisio cyfartal er mwyn hwyluso gwaith rhanbarthol o dan rai amgylchiadau, ar yr amod bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Fodd bynnag, roedd yn credu y byddai angen i bob cyngor sy'n aelod gadarnhau penderfyniadau penodol ar lefel ranbarthol (ee ynghylch y Cynllun Datblygu Strategol). Roedd hefyd yn credu efallai y byddai'n briodol pwysoli hawliau pleidleisio, yn ddibynol ar yr amgylchiadau a natur y gwasanaeth a'r cydweithio, ac na ddylid diystyru hyn.

3.11.14 Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn credu y dylai penderfyniadau gael eu gwneud yn lleol, ond y dylid cydnabod bod lefel y boblogaeth a'r cydbwysedd gwleidyddol yn amrywio o ranbarth i ranbarth. Awgrymwyd y byddai modd defnyddio'r model a ddefnyddir gan yr Heddlu a Phaneli Trosedd mewn perthynas ag atebolrwydd gwleidyddol a dinasyddion.

3.11.15 Credai UNSAIN y dylid pwysoli hawliau pleidleisio i ryw raddau. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod ar draul y ffaith bod y dinesydd yn byw mewn ardal awdurdod lleol llai.

3.11.16 Nodwyd bod aelodau etholedig yn debygol o wynebu gwrthdaro rhwng buddiannau wrth wneud penderfyniadau fel rhan o'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Wrth i'r pwyllgorau gael rhagor o bwerau gwneud penderfyniadau, efallai y bydd tensiwn yn datblygu rhwng aelodau o'r pwyllgor ac arweinwyr y cynghorau y maent yn eu cynrychioli. Byddai'n rhaid i aelodau o'r pwyllgor fod yn glir iawn ynghylch eu swyddogaeth a'u cylch gwaith.

3.11.17 Credai Archwilydd Cyffredinol Cymru y byddai pwysoli ar sail poblogaeth yn atal diffyg democrataidd sylweddol rhag codi o ganlyniad i anghydbwysedd rhwng y boblogaeth a hawliau pleidleisio. Fodd bynnag, heb hawliau pleidleisio cyfartal ar gyfer awdurdodau lleol, efallai y bydd angen ystyried cyflwyno mesurau diogelu er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle bydd pleidleisiau yn mynd yn erbyn awdurdodau lleol llai (neu rai mwy o bosibl) yn gyson, gan arwain at adnoddau yn cael eu rhannu'n anghymesur ac yn canolbwyntio ar un ardal neu ranbarth yn fwy na'i gilydd.

Trefniadau ar gyfer Patrymau Rhanbarthol

C12. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ystyried sefyllfa Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn gosod trefniadau sy'n lleihau'r cymhlethdod ar gyfer Awdurdodau a'u partneriaid. Er bod hyn yn fater o bwys sylfaenol i Ben-y-bont ar Ogwr, mae buddiannau dilys gan bartneriaid eraill hefyd, gan gynnwys Awdurdodau Lleol eraill a Byrddau Iechyd Lleol. Rydym felly'n gofyn am sylwadau ynghylch y ffordd orau o roi sylw i'r materion a nodwyd [yn y Papur Gwyn].

3.12.1 Er bod 42 o randdeiliaid wedi ymateb i'r cwestiwn hwn, ychydig a wnaeth sylwadau uniongyrchol ynghylch lleoliad ardal Pen-y-bont ar Ogwr yng nghyd-destun y patrwm rhanbarthol, gyda rhai yn nodi mai mater i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr oedd hwn yn bennaf.

3.12.2 Ni roddodd CBS Pen-y-bont ar Ogwr ymateb ffurfiol yn cyfeirio at ba anawsterau a wynebwyd wrth geisio sefydlu ymateb cyflawn a oedd yn ystyried safbwyntiau ei bartneriaid rhanbarthol yn y cyfnod cyn yr etholiadau lleol.

3.12.3 Roedd un awdurdod lleol yn credu y byddai CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn gwneud gwahaniaeth ac yn cynorthwyo â'r potensial yng nghyswllt adnoddau yng Nghwm Taf. Roedd eraill yn nodi bod y mater hwn yn adlewyrchu tensiwn yn y dull – rhwng caniatáu i awdurdodau wneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu ffactorau lleol a'r posibilrwydd o golli buddiannau oherwydd cysondeb ac eglurder, a byddai hynny'n cynnwys y cyhoedd a phartneriaid eraill. Nodwyd pwysigrwydd safle Pen-y-bont ar Ogwr yn ardal Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan rai rhanddeiliaid hefyd.


3.12.4 Pwysleisiodd Unsain bod angen datrys y problem ar unwaith, gan nodi nad oedd dull tameidiog o gydweithio yn opsiwn.

3.12.5 Roedd Byrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac Abertawe Bro Morgannwg yn cydnabod yr her roedd y Cyngor yn ei hwynebu o ran gweithio ar draws rhanbarthau, a bod angen ystyried llif cleifion a'u hanghenion. Pwysleisiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf bod angen i ffiniau byrddau iechyd a llywodraeth leol fod yn gyson. Teimlai Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf y byddai'n synhwyrol ailgysoni ffiniau byrddau iechyd, gan nodi bod Cwm Taf ac ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn cyd-fynd â'i gilydd yn naturiol oherwydd llif y cleifion a'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes. Nid oedd ymateb Abertawe a Bro Morgannwg yn gwneud sylw ynghylch y ffit orau, ond roedd yn pwysleisio bod angen bod yn eglur ac osgoi "cynllunio andwyol". Yn syml, nododd Caerdydd a'r Fro bod angen gwneud penderfyniadau ar ôl ystyried yr effaith ar gydweithio â byrddau iechyd, a'r modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau a chynllunio iechyd yn rhanbarthol.

C13. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai 'Opsiwn 3: Fframwaith a phatrwm daearyddol' yw'r dull mwyaf priodol ar gyfer gwaith rhanbarthol yn y dyfodol.

a) Beth yw'ch barn chi am y cynnig i bennu patrwm daearyddol datblygu economaidd ar gyfer 'Cyd-bwyllgorau Llywodraethu'?

Nifer yr ymatebwyr	63
Cadarnhaol	36
Negyddol	18
Dim digon o fanylion	2
Arall	7



3.13.1 Roedd y Papur Gwyn yn nodi pedwar opsiwn posibl ar gyfer pennu'r patrwm/patrymau ar gyfer gweithio'n rhanbarthol. Yn unol ag Opsiwn 3 (yr opsiwn a ffefrir), byddai mandad i sicrhau bod swyddogaethau penodol yn

cael eu cyflawni mewn perthynas â thri phatrwm 'datblygiad economaidd', gan gynnwys: 1) Gogledd Cymru, 2) Y Canolbarth a De Orllewin Cymru, a 3) De Ddwyrain Cymru. Ar gyfer swyddogaethau eraill a fyddai'n cael eu gorfodi yng nghyswllt gwaith rhanbarthol, byddai'r patrymau penodol yn cael eu pennu gan yr awdurdodau lleol cysylltiedig yn unol â fframwaith statudol â'r bwriad o ddileu gorgyffwrdd a hybu symrlwydd.

3.13.2 Cafwyd 63 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd 36 (57%) o'r rheini yn cefnogi'r dull a argymhellwyd o dan Opsiwn 3. O'r 17 o awdurdodau lleol a wnaeth sylw, roedd 11 (65%) yn cefnogi'r cynnig.

3.13.3 Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at y synergedd rhwng y patrymau arfaethedig a rhai trefniadau cydweithio sy'n bodoli eisoes, fel ardal Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ar y llaw arall, cyfeiriodd eraill at drefniadau a oedd yn gwrthdaro mewn rhai ardaloedd, ac fe nodwyd hefyd y byddai cymhlethdod enfawr yn dod yn sgil unrhyw fodel arall o ran gweithio yn y dyfodol a threfniadau ariannol.

3.13.4 Er eu bod yn cefnogi dull yn Opsiwn 3 o ran patrwm a fframwaith, nid oedd Cynghorau Ceredigion, Powys na Sir Gâr yn credu y dylai ardal Twf Canolbarth Cymru gael ei chyfuno â Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot nad oedd cyfiawnhad dros gyfuno'r ardaloedd yn y Papur Gwyn.

3.13.5 Roedd rhai o'r rheini a oedd yn anghytuno ag egwyddor Opsiwn 3 yn rhannu'r farn bod patrwm y datblygiad economaidd yn rhy fawr ac na fyddai'r dull ond yn ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth. Roedd pryderon hefyd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud gan bobl sy'n rhy bell oddi wrth y cymunedau lleol a'u hanghenion.

3.13.6 Mynegwyd barn mai'r rhanbarthau ddylai fod yn berchen ar gynlluniau rhanbarthol ac yn gyfrifol am eu datblygu. Ni chredwyd y byddai gorfodi cydweithrediad rhanbarthol yng nghyswllt gwasanaethau yn ennyn yr elfen o 'berchnogaeth leol' sy'n bwysig er mwyn i hyn lwyddo.

b) Sut fedrai fframwaith ar gyfer gweithio'n is-ranbarthol mewn meysydd gwasanaethau eraill weithredu'n ymarferol?

3.13.7 Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, gyda 7 o randdeiliaid yn nodi eu bod yn erbyn y model is-ranbarthol arfaethedig ar y sail y byddai'n gwneud pethau'n fwy cymhleth neu'n tanseilio tryloywder democratiaeth leol.

3.13.8 Awgrymodd dau randdeiliad bod hyn yn cael ei dreialu mewn rhai clystyrau er mwyn profi sut byddai'r trefniadau yn gweithio yn ymarferol.

3.13.9 Soniodd rhai rhanddeiliaid am eu profiadau yng nghyswllt cydweithrediadau sydd eisoes ar y gweill. Er enghraifft, yng Ngwent, lle mae'r pum awdurdod lleol wedi'u mapio yn union ar batrymau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (a Heddlu Gwent), gwelwyd bod y problemau yn llai cymhleth yno na mewn rhannau eraill o Gymru. Dywedwyd bod trefniadau

llywodraethu cadarn eisoes ar waith yng nghyswllt cydweithio i wella addysg ac iechyd a gofal cymdeithasol, a byddai modd addasu'r rhain i ymgorffori elfennau darparu gwasanaeth ychwanegol, a byddent yn dal yn addas at y diben.

3.13.10 Yn yr un modd, awgrymwyd y gallai trefniadau is-ranbarthol ffitio'n daclus iawn gyda'r tair 'adran' sydd ar waith ar gyfer y Bwrdd Iechyd Lleol a'r trefniadau adrannol o ran yr Heddlu yng Ngogledd Cymru.

3.13.11 Cafwyd safbwynt na fyddai Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer datblygiad economaidd yn gallu goruchwyllo gwaith is-ranbarthol yng nghyswllt gwasanaethau nad oeddent yn dod o dan ei gwmpas. Efallai y byddai angen nifer o gyd-bwyllgorau rhanbarthol mewn rhanbarth er mwyn sicrhau bod digon o arbenigedd ac amser ar lefel aelodau a swyddogion ymgynghorol er mwyn goruchwyllo'r swyddogaethau perthnasol. Dylai'r modd y mae Cyd-bwyllgor Llywodraethu rhanbarthol yn cydlynu cyfres bosibl o gyd-bwyllgorau ar lefel uwch fod yn fater i'w bennu yn rhanbarthol.

3.13.12 Mynegwyd pryder y byddai rhoi'r cynigion ar waith yn gymhleth ac o bosibl yn amhosib yn ymarferol o ran cynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Gallai'r baich yng nghyswllt llywodraethu a chraffu ar sail ranbarthol, yn ogystal â'r gofynion lleol ar swyddogion sy'n rhedeg gwasanaethau rhanbarthol, wrthbwysu unrhyw effeithlonrwydd posibl.

3.13.13 Nododd un awdurdod lleol y dylai awdurdodau lleol barhau i fod yn atebol am waith is-ranbarthol, yn hytrach na bod rhaid i Gyd-bwyllgorau Llywodraethu cysylltiedig adrodd yn ôl i bwyllgor trosfwaol ar gyfer y rhanbarth ehangach. Mae angen egluro atebolrwydd a threfniadau llywodraethu er mwyn i ddinasyddion eu deall.


3.13.14 Er mwyn osgoi costau ychwanegol yng nghyswllt sefydlu trefniadau rhanbarthol, awgrymwyd dull amgen, sef bod prif awdurdod ar gyfer gwasanaethau penodol yn cael cyfraniadau gan yr awdurdodau lleol cysylltiedig er mwyn i'r prif awdurdod gyflawni'r elfen ranbarthol.

3.13.15 Roedd rhanddeiliaid eraill yn credu y dylai'r system fod yn hyblyg er mwyn gallu ymateb i ofynion gwasanaeth penodol nad ydynt yn cyd-fynd â dull 'addas i bawb'. Byddai rhai swyddogaethau diogelu'r cyhoedd yn cael eu cyflawni orau drwy fod yn gyson â ffiniau byrddau iechyd lleol (ee iechyd yr amgylchedd) ac eraill sydd â'r patrwm datblygu economaidd (ee safonau masnach a thai). Mae rhai swyddogaethau yn cyd-fynd â ffiniau Unedau Rheoli Sylfaenol yr Heddlu yn ymarferol (ee diogelwch cymunedol a safonau masnach), tra bo swyddogaethau eraill yn cael eu cyflawni'n fwy effeithiol yn lleol (ee trwyddedu).

3.13.16 Awgrymwyd hefyd y dylid cynnal asesiad o'r effaith ar bartneriaid er mwyn deall beth fyddai effaith gweithio'n rhanbarthol neu'n is-ranbarthol ledled awdurdodau lleol ar bartneriaid eraill, er enghraifft, yng nghyswllt dyrannu adnoddau a'r galw amdanynt.

c) A yw'n briodol cael hyblygrwydd er mwyn caniatáu i waith rhanbarthol groesi ffiniau datblygu economaidd dan amgylchiadau eithriadol? Pa amgylchiadau fyddai'r rheini?

Nifer yr ymatebwyr	41
Ydy	32
Nac ydy	4
Arall	5



3.13.17 Roedd y rhan fwyaf (78%) o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno y dylid cael hyblygrwydd yng nghyswllt trefniadau rhanbarthol o ran ffiniau datblygu traws-economaidd, ond nid oedd pawb yn cytuno y dylai hyn gael ei gyfyngu i amgylchiadau eithriadol. Er enghraifft, nodwyd bod trefniant ar gyfer gwaredu gwastraff yng Ngogledd Cymru sy'n cynnwys 5 o'r 6 o awdurdodau lleol wedi cael ei gymeradwyo yn ddiweddar. Nid oedd y chweched awdurdod wedi'i gynnwys am reswm da iawn, ond efallai na fyddai'n cael ei ddisgrifio fel rheswm 'eithriadol'. Dylai'r fframwaith ar gyfer trefniadau rhanbarthol ganiatáu digon o hyblygrwydd i allu gwneud trefniadau pragmatig.

3.13.18 Roedd Cyngor Caerdydd yn credu y dylai fod darpariaeth ar gyfer hwn pan gaiff ei gefnogi gan achos busnes cadarn (ee gwasanaethau Cymru gyfan neu genedlaethol). Byddai'r Cyngor hefyd yn hoffi cael hyblygrwydd er mwyn parhau i weithio ar faterion strategol dinas-ranbarthol gyda Dinas-Ranbarth Bryste (ee partneriaeth Dinasoedd y Great Western sydd eisoes yn bodoli rhwng Casnewydd a Bryste i wella cysylltiadau rheilffyrdd a mynediad at gyfleoedd swyddi). Awgrymodd y byddai gan Ogledd Cymru a'r Canolbarth berthnasol trawsffiniol tebyg ag economïau yn Lloegr.

3.13.19 Enghraifft arall a nodwyd oedd Carchar EM Berwyn. Mae ei leoliad yn golygu y byddai galw am ddarpariaeth gofal iechyd yng Ngogledd Cymru a Lloegr. Yn yr un modd, bydd yr heddlu yn gweithio ar draws ffiniau ac mae'n bosibl y gallai fod angen cymorth ar awdurdodau lleol gan siroedd y tu allan i ffiniau'r datblygiad economaidd. Mewn amgylchiadau lle mae angen gwneud hynny, ni ddylai fod cyfyngiad arnynt.

3.13.20 Credai Unsain fod rhoi digon o hyblygrwydd i awdurdod arloesi neu wneud newidiadau yn agwedd gadarnhaol ar y cynigion, ond y dylai'r rhain fod yn unol â fframwaith ffiniau'r datblygiad economaidd. Nid oedd amgylchiadau eithriadol, oni bai am y rheini a oedd yn gweithio ar sail Cymru gyfan, lle dylid cael eithriadau, gan y byddai hyn yn tanseilio datblygiad cydweithio priodol. Ystyriwyd bod caniatáu i awdurdodau lleol wneud gormod o benderfyniadau eu hunain yn beryglus, ac mai Llywodraeth Cymru ddylai bennu'r ffiniau. Dylai fod cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, o leiaf.

3.13.21 Gan ystyried cynllunio defnydd tir strategol, nododd rhai rhanddeiliaid nad yw adnoddau ecolegol / bioamrywiaeth cysylltiedig yn gweithio yn unol â'r patrymau datblygu economaidd a argymhellir. Byddai hefyd yn angenrheidiol gallu ystyried materion sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau o'r fath a mynd i'r afael â nhw. Roedd yr amgylchiadau hyn yn debygol o fod yn gyffredin yn hytrach nag eithriadol.

3.13.22 Roedd consortiwm addysg ERW yn credu y byddai'n rhaid i ardal Twf Canolbarth Cymru gydweithio â Dinas-Ranbarth Bae Abertawe er mwyn iddo barhau. Nododd fod Cynghorau Ceredigion a Phowys yn dibynnu ar fuddiannau'r gwasanaeth rhanbarthol ehangach ar hyn o bryd, ac efallai y byddent yn cael trafferth darparu gwasanaeth cadarn i ysgolion ar eu pen eu hunain.

d) Sut ddylai trefniadau llywodraethu'r 'Cyd-bwyllgorau Llywodraethu' yn ardal y patrwm datblygu economaidd gorfodol oruchwylio gwaith is-ranbarthol?

3.13.23 O'r 27 o randdeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 8 (29%) ohonynt yn credu na ddylai Cyd-bwyllgorau Llywodraethu yn y patrwm datblygu economaidd oruchwylio gwaith is-ranbarthol. O'r rhain, ailddatganodd 3 o'r sector cynghorau cymuned eu gwrthwynebiad i'r egwyddor o weithio'n is-ranbarthol.

3.13.24 Dyma safbwyntiau 4 o'r awdurdodau lleol nad oeddent yn cefnogi'r dull hwn:

- Nid yw'n ddymunol nac yn briodol bod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu economaidd rhanbarthol yn goruchwylio trefniadau llywodraethu is-ranbarthol yng nghyswllt iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Byddai hyn yn gwneud pethau'n fwy cymhleth drwy geisio cyfuno'r gwaith o oruchwylio nifer o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus – yn enwedig byrddau iechyd lleol. Sgîl-effaith hynny yw y byddai grym yn cael ei neilltuo i nifer bach o awdurdodau lled-leol mawr iawn, a fyddai'n ei gwneud bron yn amhosibl rheoli atebolrwydd lleol neu gyflawni hynny.
- Dylai awdurdodau allu gweithio gyda modelau hyblyg sy'n cyflawni eu diben sefydliadol. Er enghraifft, disgwylir y bydd y Cabinet Cydweithredol sydd wedi'i sefydlu i oruchwylio Bargaen Ddinesig

Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn lledaenu ei ddylanwad dros amser a hwn fydd yr haen lywodraethol gyntaf ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

- Byddai'r patrwm daearyddol yn rhy fawr i'w ddarparu ac i oruchwyllo'r rhan fwyaf o wasanaethau.
- Dim ond materion sy'n ymwneud â datblygiad economaidd, trafnidiaeth, cynllunio defnydd tir a pholisi tai strategol ddylai'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer datblygu economaidd (neu'r Cabinet Cydweithredol a sefydlwyd fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd) eu hystyried. Ni ddylid cael hierarchaeth o Gyd-bwyllgorau Llywodraethu lle mae penderfyniadau ar lefel is-ranbarthol yn symud oddi wrth awdurdodau lleol.

3.13.25 Roedd nifer cyfyngedig o ymatebion yn ymateb i'r cwestiwn yn uniongyrchol. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Mae'n aneglur sut gallai 'Cyd-bwyllgorau Llywodraethu' gorfodol ar gyfer datblygiad economaidd lwyddo i oruchwyllo gwaith is-ranbarthol yn effeithiol (ar draws meysydd gwasanaeth eraill – gan amrywio o addysg a gofal cymdeithasol i wastraff a gwasanaethau cefnogi, ayb) heb gynrychiolaeth lawn a phriodol.
- Bydd rhannu gwybodaeth ynghylch gweithgaredd a phroblemau rhwng y lefelau rhanbarthol ac is-ranbarthol yn allweddol. Byddai modd gwneud trefniadau i roi'r hen strwythurau pwyllgor / is-bwyllgor ar waith, lle caiff gwybodaeth ei rhannu hyd at lefel ranbarthol a (lle bo angen) bydd y lefel ranbarthol yn darparu cymorth i'r lefel is-ranbarthol.
- Drwy gynllun datblygu economaidd rhanbarthol y cytunwyd arno yn ddemocrataidd ac yr ymgynghorwyd yn helaeth yn ei gylch.
- Waeth pa drefniadau a fydd yn cael eu sefydlu ar gyfer rheoli'r gwasanaethau rhanbarthol, mae'n rhaid ei bod yn glir pwy sy'n gyfrifol am beth. Roedd yr arolygon o gonsortia addysg yn gymhleth yn ERW a GwE gan fod y ddau yn ansicr ynghylch beth roedd y consortiwm yn ganolog yn gyfrifol ac yn cael ei ddal i gyfrif amdano.
- Dylai Cyd-bwyllgorau Llywodraethu oruchwyllo gwaith is-ranbarthol drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (sydd hefyd â diddordeb mewn swyddogaethau iechyd y cyhoedd), aelodau etholedig a strwythurau pwyllgorau sydd eisoes ar waith. Dylid hefyd ystyried ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn rheolaidd fel rhan o'r broses. Mae angen cael strwythurau cofnodi ac atebolrwydd clir ar waith rhwng y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r gwaith sy'n cael ei wneud o dan y lefel hon. Dylai sicrhau canlyniadau ar gyfer pobl leol a dangos defnydd da o gyllid er mwyn gwneud gwahaniaeth hefyd fod yn hollbwysig yn y broses oruchwyllo.

- Ni ddylid dyblygu prosesau na strwythurau craffu sy'n bodoli eisoes. Byddai modd defnyddio strwythurau eraill sy'n bodoli eisoes i ymgorffori strwythurau is-ranbarthol newydd. Efallai y bydd angen ystyried trefniadau byrddau iechyd cyhoeddus o ran eu patrwm daearyddol, gan fod hyn yn berthnasol i glystyrau o awdurdodau lleol, heddluoedd cyflawn neu rannau ohonynt, a llawer o bartneriaethau sy'n bodoli eisoes o ganlyniad.

Awdurdod Cyfun

C14. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu sylwadau ynghylch priodoldeb ceisio pwerau i greu Awdurdod Cyfun. Yn benodol, croesawir sylwadau ynghylch pa ddisgwyliadau gofynnol y dylid eu cael wrth ystyried priodoldeb creu Awdurdod Cyfun.

Nifer yr ymatebwyr	45
Cefnogi, ond dim disgwyliadau penodol	17
ALL i benderfynu	7
Peidio â phenderfynu o'r cychwyn cyntaf	6
Anghytuno â chyfuno awdurdodau	7
Fel y mae CLILC yn ei awgrymu	2
Asesiad o effaith	2
Cefnogi awdurdodau cyfun pan fo awdurdodau yn methu	1
Cefnogaeth, fel endidau cyfreithiol newydd	1
Mae angen parchu cefnogaeth, hawliau'r plentyn	1
Dim lleiafswm	1

3.14.1 Yr ymateb mwyaf cyffredin (38% o'r ymatebion) oedd eu bod yn cefnogi'r cynnig, ond nad oedd ganddynt syniadau penodol ynghylch y disgwyliadau gofynnol. Y ddau ymateb mwyaf cyffredin ar ôl hynny oedd y dylai'r awdurdodau lleol eu hunain bennu beth ddylai'r disgwyliadau fod, tra bo eraill yn awgrymu na ddylid pennu'r disgwyliadau ymlaen llaw oherwydd byddai pethau annisgwyl yn codi wrth drawsnewid i strwythurau newydd.

3.14.2 Roedd awdurdodau lleol ar y cyfan, yn ogystal â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, o blaid creu awdurdodau cyfun yng Nghymru, a dim ond 2 o'r 11 o awdurdodau lleol a roddodd ymateb negyddol. Roedd rhai awdurdodau yn awgrymu y byddai'n caniatáu mwy o hyblygrwydd ar lefel leol a rhanbarthol, ac yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn.

3.14.3 Awgrymodd Cyngor Sir Powys y dylai gwaith rhanbarthol a Chydbwyllgorau Llywodraethu gael cyfle i ymsefydlu cyn bod y disgwyliadau ar gyfer awdurdodau cyfun yn cael eu pennu. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y dylai "deddfwriaeth fod yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid". Dyma ran o ymateb Cyngor Caerdydd, "gan

ystyried yr agenda ar gyfer dinas-ranbarthau sy'n esblygu'n gyflym ledled y DU, a'r trefniadau sy'n datblygu yng nghyswllt y Fargen Ddinesig, dylai'r opsiwn o fabwysiadu dull Awdurdod Cyfun fod ar gael ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn y dyfodol".


3.14.4 Yn gyffredinol roedd sefydliadau proffesiynol eraill yn cefnogi'r syniad o gael 'awdurdodau cyfun' ond roedd angen sicrwydd arnynt y byddai hyn yn rhoi darpariaeth i gymunedau lleol ac yn cynnig y posibilrwydd o wneud arbedion yng nghyswllt gwariant cyhoeddus.

Ariannu Trefniadau Rhanbarthol

C15. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid datblygu fframwaith cyllidol gorfodol er mwyn sicrhau bod gwariant pob 'Cyd-bwyllgor Llywodraethu' yn cael ei ddiwallu drwy gyfraniadau cyfun oddi wrth yr awdurdodau lleol sy'n rhan ohono.

a) A ddylai gwariant pob 'Cyd-bwyllgor Llywodraethu' gael ei ddiwallu gan yr Awdurdodau Lleol sy'n rhan ohono, gan gytuno ar y cyfrannau yn lleol, er mwyn sicrhau'r dull gweithredu mwyaf hyblyg?

Nifer yr ymatebwyr	54
Cytuno	30
Anghytuno / Anghytuno â Chyd-bwyllgorau Llywodraethu	10
Aros am ganlyniadau diwygio cyllid	2
Arall	12



3.15.1 Roedd ychydig yn fwy na hanner (56%) y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a 9 o awdurdodau lleol, yn cytuno â'r dull hwn. Gwnaeth rai rhanddeiliaid sylwadau ar faterion mewn perthynas â'r dull arfaethedig, heb roi barn glir y naill ffordd neu'r llall. Yn rhannol, roedd modd priodoli'r farn hon i'r ffaith nad oedd digon o fanylion yn y Papur Gwyn. Nid oedd 10 (19%) o randdeiliaid yn cefnogi'r dull.

3.15.2 I grynhoi, dyma'r prif bwyntiau a wnaed gan y rheini a wnaeth sylwadau ar y dull:


- Cefnogwyd y bwriad i adeiladu ar arferion da sy'n bodoli eisoes, yn hytrach na chyflwyno model cyllido cymhleth newydd. Roedd trefniadau cyllido cyfun a oedd yn bodoli eisoes ar gyfer trefniadau cydweithredol yn gweithio'n dda ar y cyfan.
- Cydnabu fod angen sefydlu "cronfa gyfun" drwy gytundeb lleol, ond nid oedd digon o fanylion yn y Papur Gwyn ynghylch sut byddai hyn yn gweithio yn ymarferol. Roedd y model ar gyfer Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn galluogi awdurdodau lleol cysylltiedig i wneud cyfraniadau ariannol cymesur, ac efallai y gellid defnyddio hwn fel model ar gyfer bwrw ymlaen â threfniadau tebyg yng nghyswllt gweithio'n rhanbarthol. Fodd bynnag, mae angen sefydlu mecanwaith ar gyfer adolygu a diwygio'n rheolaidd er mwyn sicrhau dull teg.
- Ystyriwyd bod hyblygrwydd yn bwysig, ond pe na bai'r fformiwla gyllido yn cael ei newid i adlewyrchu problemau penodol pob awdurdod lleol cysylltiedig, byddai annhegwch a drwgdeimlad yn codi. Roedd cyfeiriad penodol at yr heriau roedd cymunedau gwledig yn eu hwynebu ee cysylltiadau trafnidiaeth, tlodi gwledig, ynysu gwledig, yr heriau sy'n codi yn sgil darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig a'r costau sydd ynghlwm â modelau darparu o'r fath. Roedd pryder y gallai cyllid gael ei dargedu at ardaloedd sy'n ymddangos bod mwy o'i angen arnynt, a hynny ar draul ardaloedd eraill.
- Dylid cytuno ar gyfrannau gwariant unrhyw Gyd-bwyllgor Llywodraethu yn lleol ac yn unol â'r patrwm daearyddol perthnasol.
- Awgrymodd Awdurdod Iechyd Porthladd Abertawe bod y trefniant sydd ganddo, lle mae'n cael ei ariannu drwy archebiant y pedwar awdurdod lleol sy'n gysylltiedig ag ef, yn fodel priodol. Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid eraill yn gwrthwynebu trefniant archebiant / ardoll, gan ei fod yn cael ei ystyried yn ffordd ragdybiol o ddyrannu adnoddau democrataidd.
- Dylai pob awdurdod lleol sy'n rhan o'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu dalu i mewn i gronfa gyfun drwy roi cyfraniad hafal i'r gyfran briodol o wariant net yr awdurdod lleol mewn perthynas â'r flwyddyn. Nodwyd, fodd bynnag, efallai y byddai disgwyl i'r gronfa gyfun gael ei gwario yn yr ardaloedd sydd wedi cyfrannu arian ati. Byddai angen cyflawni'n gyflym ar sail ranbarthol a byddai angen dangos bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n well am gostau llai ar gyfer dinasyddion ledled y rhanbarth.
- Roedd angen eglurhad ynglŷn ag a fyddai lefel y cyfraniadau ariannol gan bob awdurdod partner mewn cydweithrediad rhanbarthol yn hafal neu'n gymesur ee arian y pen ar sail y boblogaeth. Hefyd, a fyddai lefel

y cyfraniad yn cael ei adlewyrchu yn hawliau pleidleisio pob awdurdod sy'n rhan o Gyd-bwyllgor Llywodraethu.

- Roedd sawl rhanddeiliad yn credu y dylai'r mecanweithiau arfaethedig ar gyfer ariannu Cyd-bwyllgorau Llywodraethu aros am ganlyniad y diwygiadau ehangach i gyllid a gynigir yn y Papur Gwyn.
- Roedd pryder y gallai ystyriaethau gwleidyddol gael effaith niweidiol ar benderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau rhwng ardaloedd.
- Dylid caniatáu i gydweithio rhanbarthol ddatblygu ac i berthnasoedd gael eu seilio ar ymddiriedaeth cyn symud ymlaen at y drafodaeth fanwl ynghylch ariannu a chyfuno cyllidebau. Mae'n anochel y byddai cydweithio effeithiol yn arwain at ymddiriedaeth, a fyddai'n hwyluso'r cytundebau sylfaenol sydd eu hangen.
- Mae angen i'r fframwaith sicrhau atebolrwydd lleol ar gyfer y cyllidebau cyfun. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn pennu'r gyllideb ar gyfer pob gwasanaeth drwy ystyried y galw lleol am wasanaethau. Byddai Cyd-bwyllgor Llywodraethu sy'n cael ei arian drwy fformiwla gyllido yn cael gwared â'r atebolrwydd lleol hwnnw ac yn cyfyngu ar allu'r awdurdodau lleol i gyfeirio adnoddau at yr ardaloedd a bennir yn lleol.
- Byddai cost yn dod yn sgil cyllidebau cyfun oherwydd byddai'n rhaid i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ail-greu'r systemau ariannol sydd eisoes ar waith mewn awdurdodau lleol i sicrhau bod y gyllideb gyfun yn cael ei stiwardio yn briodol.
- Roedd pryder y byddai'r cynigion yn arwain at "ras i'r gwaelod" lle byddai cyllid ar gyfer gwasanaeth rhanbarthol yn adlewyrchu lefel isaf cyllidebau presennol yr awdurdodau cysylltiedig.

b) A ddylai'r fframwaith ddarparu safbwynt diofyn os nad oes modd dod i gytundeb yn lleol, a sut y gellid sbarduno proses o'r fath?

Nifer yr ymatebwyr	46
Cytuno	17
Anghytuno	17
Anghytuno ag is-ranbarthau	2
Gwybodaeth annigonol	5
Arall	5



3.15.3 Roedd y nifer o blaid ac yn erbyn cael trefniant diofyn pe na bai cytundeb lleol yn gyfartal. Rhoddodd y gweddill sylwadau ar y cynnig heb nodi barn bendant.

3.15.4 Tybiwyd mai'r agweddau ariannol ar weithio'n rhanbarthol a fyddai fwyaf tebygol o achosi anghydfod rhwng partneriaid rhanbarthol. Bydd gan wahanol awdurdodau lleol wahanol flaenoriaethau, a adlewyrchir yn eu cynlluniau corfforaethol, a gallai hyn effeithio ar y ganran o'u cyllideb y byddent yn dymuno ei roi mewn cydweithrediad rhanbarthol. Mae'r tensiwn hwn yn ganolog i gynnal y cydbwysedd rhwng ffocws lleol ac atebolrwydd democrataidd yn erbyn cynllunio strategol rhanbarthol sy'n gyson.

3.15.5 Ni fyddai gorfodi'r fframwaith fel trefn ddiofyn (wedi'i sbarduno gan awdurdodau eraill neu Lywodraeth Cymru) yn cyfrannu llawer at ddatblygu perthynas lle mae'r awdurdodau yn ymddiried yn ei gilydd.

3.15.6 Yn gyffredinol, lle cefnogwyd y syniad o gael trefn ddiofyn credwyd y dylai fod yn amodol ar reolaethau a meini prawf penodol, er enghraifft, ei fod seiliedig ar angen a safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. Awgrym arall oedd y dylai'r drefn ddiofyn fod yn seiliedig ar boblogaeth pob awdurdod.

3.15.7 Mynegwyd barn bod angen cynnal asesiad o anghenion er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer pennu model ariannol. Ar y dechrau, efallai y bydd angen i rai awdurdodau lleol gynyddu eu cyfraniad ariannol presennol os bydd angen, er enghraifft, os ydynt yn darparu gwasanaethau is na'r safon ddisgwyliedig.

3.15.8 Awgrymwyd y dylai'r fframwaith gynnwys proses gyfryngu / negodi pellach cyn troi at y drefn ddiofyn.

3.15.9 Fodd bynnag, mynegwyd barn hefyd na ddylai Llywodraeth Cymru gyflwyno fframwaith ariannol gorfodol, ond y gallai fod yn rhan o hwyluso neu gyfryngu unrhyw drafodaethau.

3.15.10 Hefyd, ymysg y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, mynegwyd barn mai'r awdurdodau lleol sydd yn y safle gorau i bennu'r trefniadau. Nodwyd bod y Cytundeb Cydweithio ar gyfer Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys cymalau a oedd yn ymdrin â sefyllfa o'r fath.

3.15.11 Roedd pryder hefyd y gallai trefniant diofyn olygu bod gorchymyn yn cael ei roi ar awdurdod gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu, heb ystyried a yw wedi cymeradwyo'r gyllideb neu beidio, nac unrhyw ofynion ariannol eraill y gallai eu hwynebu. O dan yr amgylchiadau hynny, mae gofynion ariannol y Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn debyg i archebiant neu ardoll, a byddai penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn cael blaenoriaeth dros benderfyniadau'r awdurdodau lleol unigol, a fyddai'n tanseilio democratiaeth leol. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'n bosibl y gellid tanseilio dyletswyddau ymddiriedol y swyddogion statudol (ee swyddog adran 151) a'r cyngor yn gyffredinol.

c) Pa ystyriaethau pellach allai fod yn berthnasol neu angen eu cynnwys mewn fframwaith cyllidol?

3.15.12 Cafwyd amrywiaeth o ymatebion perthnasol i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys:

- trefniadau i fynd i'r afael â risg a rhwymedigaeth, gan gynnwys ymgynghori ag yswirwyr sy'n bodoli eisoes ymlaen llaw.
- ystyriaethau ynghylch gwerth am arian ar gyfer awdurdod lleol mewn Cyd-bwyllgor Llywodraethu, ac i ba raddau y mae modd cynnwys a datrys y broblem gysylltiedig â chymhorthdal trawsffiniol. Awgrymwyd y gallai Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried hyn gyda llywodraeth leol i sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio i ymateb i'r heriau hyn yng nghyswllt mewnbyn ac allbyn / canlyniadau sy'n ymwneud â chyfraniadau cyfun.
- goblygiadau gweithio'n rhanbarthol ar gyfer cyfalaf a chyllidebau refeniw awdurdodau lleol.
- adnoddau ychwanegol ar gyfer 'awdurdodau cynhaliol' er mwyn helpu i gynorthwyo a sefydlu effeithiolrwydd gweithio'n rhanbarthol, gan gynnwys llywodraethu a chraffu.
- y cyfnod ar gyfer unrhyw drefniadau darparu newydd. Dylai trefniadau newydd sicrhau bod modd cynllunio gwasanaethau cynaliadwy yn y tymor canolig er mwyn gwneud y newidiadau sydd werth eu gwneud.
- cosbau am daliadau hwyr a threfniadau force majeure priodol.


Materion y Gweithlu

C16. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd angen cyhoeddi canllawiau statudol lle bo angen clir er mwyn helpu sefydliadau i symud tuag at ddull mwy cyson, rhanbarthol o ddarparu gwasanaethau.

a) A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno?

b) Os ydych yn cytuno, pa fath o gyngor, canllawiau a chymorth ar arweinyddiaeth neu faterion yn ymwneud â'r gweithlu fedrai arwain at fwy o gysondeb lleol, rhanbarthol a chenedlaethol?

Nifer yr ymatebwyr	63
Cytuno	49
Anghytuno	13
Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn cynghori	1



3.16.1 Roedd y Papur Gwyn yn cydnabod mai ased mwyaf gwerthfawr y gwasanaeth cyhoeddus yw ei weithlu, ac y byddai'r cynigion yng nghyswllt gweithio'n rhanbarthol yn effeithio ar weithlu'r llywodraeth leol. Awgrymodd y Papur Gwyn na fyddai'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus yn gorff statudol mwyach ac y byddai'n dod i ben fis Mawrth 2018. Tan hynny, byddai'n parhau i roi cyngor ar faterion y gweithlu yn unol â chyfeiriad strategol Cyngor Partneriaeth y Gweithlu. Cafwyd barn gymysg mewn ymgynghoriad blaenorol ynghylch y ffaith bod gan Weinidogion Cymru'r pŵer i gyflwyno canllawiau statudol, ond roedd Llywodraeth Cymru yn credu y gallai pŵer fel hyn fod o fudd mewn amgylchiadau lle byddai'n gwella'r gwaith o ddatblygu darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

3.16.2 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid, 49 (78%), yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru fod â'r pŵer i gyflwyno canllawiau statudol. Cafwyd barn fwy cymysg gan lywodraeth leol o gymharu â'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus, a oedd yn cefnogi canllawiau statudol. Hyd yn oed ymysg y nifer bach o awdurdodau lleol oedd yn cytuno y gallai canllawiau fod yn ddefnyddiol,

mynegwyd nad oedd canllawiau statudol yn briodol a dim ond os nodir yn glir bod eu hangen y dylid eu cyflwyno.

3.16.3 Nodwyd mai arweinyddiaeth bwrpasol wedi'i dosbarthu fyddai'r elfen allweddol er mwyn trawsnewid llywodraeth leol yn llwyddiannus. Roedd angen cynllun datblygu gweithlu strategol ond roedd y gallu a'r capasiti i ymgymryd â hyn mewn llywodraeth leol wedi lleihau'n sylweddol ac felly roedd y maes hwn ynddo'i hun yn un y gellid cydweithio ynddo.

3.16.4 Ystyriwyd bod swyddogaeth Academi Wales yn allweddol a bod angen ymgysylltu ag awdurdodau lleol i drafod dull cydweithredol mewn perthynas ag arweinyddiaeth a datblygu'r gweithlu. Byddai cyflwyno rhaglen arweinyddiaeth achrededig ledled y patrymau daearyddol rhanbarthol yn sicrhau dull cyson a safon sylfaenol ar gyfer arweinyddiaeth seiliedig ar werth, a fyddai'n darparu'r sgiliau angenrheidiol i arwain rhaglen gydweithredol ar gyfer newid yn rhanbarthol.

3.16.5 Croesawyd model Cymru o'r bartneriaeth gymdeithasol rhwng Llywodraeth Cymru, cyflogwyr y sector cyhoeddus ac undebau llafur a ymgorfforwyd yng Nghyngor Partneriaeth y Gweithlu. Hefyd, croesawyd gwaith y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus ar oriau heb warant a chydabyddiaeth i uwch-swyddogion ac roedd ymatebwyr yn cefnogi safbwynt cyflogwyr yng Nghyngor Partneriaeth y Gweithlu y dylai'r Comisiwn barhau ar ôl mis Mawrth 2018.

3.16.6 Byddai gwaith y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y misoedd nesaf mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu a chysoni telerau ac amodau o fudd mawr er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer y broses o ddiwygio llywodraeth leol o ran y gweithlu. Gan ystyried diffyg capasiti llywodraeth leol i gynnal gwaith o'r fath, gobeithiwyd y byddai adnodd ymarferol tebyg i'r Comisiwn yn dal ar gael ar ôl mis Mawrth 2018.


3.16.7 Nodwyd gwahaniaethau rhwng graddfeydd cyflog a thelerau ac amodau cyflogaeth, a'r risg y byddai hyn yn ei gyflwyno o ran cydweithio, gan nifer o randdeiliaid.

3.16.8 Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei bod yn cefnogi'r dull partneriaeth gymdeithasol a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu. Fodd bynnag, nid oedd yn cefnogi canllawiau statudol yn deillio o Gyngor Partneriaeth y Gweithlu a byddai'n ei chael yn anodd gweithio mewn cyd-destun lle byddai cyfeiriad cenedlaethol yn torri ar draws fframweithiau negodi lleol.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

C17. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe bai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn medru cydweithio neu uno ar draws ffiniau Byrddau Iechyd Lleol. A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Pam?

Nifer yr ymatebwyr	75
Cytuno	37
Cytuno mewn egwyddor	17
Anghytuno	12
Arall	9




3.17.1 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn galluogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i uno, ar sail ffiniau iechyd lleol. Roedd y Papur Gwyn yn awgrymu y gallai fod yn briodol cael mwy o hyblygrwydd er mwyn galluogi Byrddau i uno (neu wahanu) i gynnwys gwahanol batrymau daearyddol rhanbarthol.

3.17.2 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid (72%) yn cytuno mewn egwyddor, y dylid cael yr hyblygrwydd hwn, pe bai amgylchiadau'n awgrymu mai dyma'r peth gorau i'w wneud er mwyn darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, nododd nifer o randdeiliaid nad oes gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu personoliaeth gyfreithiol eu hunain; dim trefniadau llywodraethu cynhwysfawr yn sail iddynt (yng nghyd-destun y materion a drafodir yn y Papur Gwyn) ac y byddant yn "ffitio" gyda rhai swyddogaethau yn ddaearyddol, ond nid rhai eraill. Gallai hyn arwain at ragor o gymhlethdod yn ymarferol.

3.17.3 Ymysg y rhai a oedd yn anghytuno, mynegwyd barn y dylid rhoi amser i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael cyfle i wneud i'r trefniadau presennol weithio. Byddai'r cynnig yn ychwanegu haen arall o gymhlethdod a gallai Bwrdd mwy fod yn rhy bell oddi wrth y cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Byrddau aros ym mhatrwm daearyddol yr awdurdodau lleol.

C18. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael gwahanu yn ogystal ag uno. A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Pam? A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Pam?

Nifer yr ymatebwyr	64
Cytuno	39
Dim ond gydag achos cryf iawn	7
Cytuno mewn egwyddor	4
Anghytuno	6
Gwybodaeth annigonol	3
Arall	5



3.18.1 Unwaith eto, roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid (78%) yn cytuno, neu'n cytuno mewn egwyddor, â'r cynnig hwn. Yn gyffredinol, cydnabuwyd bod amgylchiadau a chyfleoedd yn newid dros amser a'i bod yn synhwyrol bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn hyblyg ac yn gallu gwahanu pe bai hynny'n briodol.

3.18.2 Awgrymwyd bod pŵer ymhlyg i wahanu eisoes, ond byddai'n ddefnyddiol sefydlu'r trefniant er mwyn osgoi dadl gyfreithiol. Hefyd, dylai'r penderfyniad i wahanu fod yn ôl disgresiwn y Cyd-bwyllgor, heb fod yn amodol ar elfen o reolaeth, nac angen caniatâd gan Lywodraeth Cymru.

3.18.3 Er eu bod yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y byddai angen rhesymau arwyddocaol iawn i dderbyn bod angen "gwahanu" Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn enwedig os bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu rhanbartholi.

3.18.4 Ni chafwyd unrhyw ddadleuon penodol yn ymatebion y rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig.

Uno Gwirfoddol

C19. Byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu sylwadau ynghylch y disgwyliadau gofynnol wrth ystyried pa mor briodol yw achos o uno gwirfoddol.

3.19.1 Roedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gryf y dylai fod achos busnes cadarn i gefnogi unrhyw gynigion uno gwirfoddol. Ni fynegodd yr un awdurdod lleol awydd i uno, a dywedodd nifer ohonynt nad oeddent yn ystyried uno.

3.19.2 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y byddai'r profion ar gyfer gweithio rhanbarthol yn y Papur Gwyn yn berthnasol i ystyried uno gwirfoddol. Awgrymodd eraill na ddylai fod gofynion sylfaenol i atal awdurdodau lleol parod rhag uno. Fodd bynnag, nodwyd y gallai unrhyw uno gwirfoddol atal cyfleoedd i eraill uno yn y dyfodol, yn dibynnu ar ddaearyddiaeth.

3.19.3 Nodwyd hefyd nad uno gwirfoddol yw'r ateb perffaith i fynd i'r afael â'r heriau ariannol sy'n wynebu awdurdodau llai o faint. Dim ond cyfran fach o'r arbedion sydd eu hangen fyddai'n deillio o uno dau sefydliad a chael gwared ar rai costau uwch reolwyr; a gallai costau fel cydraddoli'r dreth gyngor fod yn sylweddol. Mae'r manteision yn fwy tebygol o ddod yn sgil adfer rhywfaint o'r capasiti a gollwyd o graidd yr awdurdodau lleol mewn ymgais i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen, gan greu cylch dieflig lle nad oes neb ar ôl i wneud gwaith arloesol, trawsnewidiol i greu arbedion yn y dyfodol.

3.19.4 Awgrymwyd bod y disgwyliadau a amlinellwyd yn y Papur Gwyn fymryn yn drafodiadol. Dylai fod gofyniad ar gyfer gweledigaeth strategol i greu ymdeimlad newydd o le ar gyfer yr uno, model gweithredu newydd sy'n dangos sut y gellid trawsnewid gwasanaethau i wella canlyniadau a bod yn fwy effeithlon, a chynllun ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a defnyddwyr gwasanaethau wrth ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Dylai fod cymorth gwleidyddol a mandad gan ddinasyddion lleol ar gyfer cynnig uno gwirfoddol.

3.19.5 Dywedodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru y byddai uno gwirfoddol yn effeithio ar ei waith. Roedd y Comisiwn o'r farn, fel y cynigir yn y Papur Gwyn, y byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru ofyn iddo gynnal adolygiad etholiadol ac y byddai'n briodol i hyn gael ei gynnwys mewn unrhyw ddeddfwriaeth sydd ar droed.

Fframwaith ar gyfer Arweinyddiaeth Leol

C20. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu sylwadau ar unrhyw un o'r cynigion a nodwyd yn flaenorol yn y Bil Llywodraeth Leol drafft a'r papur ymgynghori cysylltiedig.

3.20.1 Cyhoeddwyd cynigion diwygio blaenorol Llywodraeth Cymru yn 'Bil Llywodraeth Leol Drafft (Cymru)' a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2015. Nodwyd barn y Llywodraeth bresennol am y cynigion i beidio ag uno mewn atodiad i'r Papur Gwyn.

3.20.2 Cafwyd ystod eang o ymatebion gan randdeiliaid. Yr ymateb mwyaf cyffredin ymhlith y rhain oedd cefnogaeth i gyflwyno 'Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol' ar gyfer awdurdodau lleol a chynghorau cymuned a oedd yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch y cyfyngiadau cyn cychwyn yn y Bil Drafft.

3.20.3 Er bod UNSAIN yn cefnogi'r cysyniad o gyflwyno'r pŵer cyffredinol, ailadroddodd y dylai gwasanaethau cyhoeddus gael eu darparu'n uniongyrchol gan y sector cyhoeddus. Roedd yn gofidio bod ei ddefnydd i wasanaethau darparu drwy gydweithfeydd a chwmnïau cydfuddiannol yn gam tuag at breifateiddio traddodiadol.

3.20.4 Tynnodd y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus sylw hefyd at adroddiad 2001, 'Proof of delivery: A review of the role of co-ops and mutuals in local public service provision' sy'n nodi *'Having conducted a detailed empirical review, we found the case for co-ops and mutuals is unproven. There was little evidence that they improve or enhance public service provision and what evidence there was tended to focus on the process of forming such organisations rather than the outcomes achieved.'*

3.20.5 Mewn perthynas â chynghorau cymuned, ailadroddodd rhanddeiliaid eu pryderon blaenorol na ddylai'r Bil greu'r argraff fod y cynghorau nad oeddent yn bodloni'r meini prawf i fod yn gymwys i gael y pŵer cyffredinol yn 'anghymwys'. Ailadroddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru na ddylai barn archwilio fod yn rhan o'r penderfyniad ynghylch cymhwysedd, gan nad dyna pam y cynhaliwyd yr archwiliadau.

3.20.6 Roedd cefnogaeth (gan awdurdodau lleol a chynghorau cymuned) i lunio canllawiau ar sut mae defnyddio'r pŵer ac ymrwymiad parhaus i hyfforddi clerod a chynghorwyr.

3.20.7 Sylwadau ar yr agweddau eraill ar y cynigion diwygio a wnaed gan randdeiliaid:


- Ystyriwyd bod y pŵer galw'n ôl yn ddiangen o gofio'r gosb ar gyfer achosion o gamymddwyn difrifol. Pe câi ei gyflwyno, dylai fod yn berthnasol i holl haenau'r llywodraeth.
- Dylid ystyried rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol mewn perthynas â chyllidebau cyfun. Cwestiynwyd beth oedd mantais cael aelodau lleyg ychwanegol, a nodwyd mai'r pwyllgor ddylai fod yn gyfrifol am benderfynu a ddylid pennu cadeirydd lleyg ai peidio.
- Pryderon ymarferol ynghylch presenoldeb o bell.
- Pryder ynghylch cost bosibl darlledu cyfarfodydd.
- Barn gymysg ar y cynigion sy'n ymwneud â pherfformiad aelodau. Roedd rhai o'r farn na ddylai Llywodraeth Cymru geisio rhagnodi trefniadau, er enghraifft ar gyfer arweinyddion sy'n rheoli perfformiad aelodau o'r Cabinet, gan mai penderfyniad lleol ddylai hwn fod. Aeth eraill i'r afael â materion ymarferol fel yr angen i fod yn gyson ag amserlenni ar gyfer adolygiadau datblygiad personol blynyddol.

Nodwyd bod hyn yn rhan o 'siarter aelodau' Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y gellid ei hyrwyddo yn lle mandad statudol.

- Cafwyd barn gymysg am y ddyletswydd arfaethedig ar arweinyddion grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo safonau da o ran ymddygiad eu haelodau a swyddogaeth ehangach ar gyfer pwyllgorau safonol. Fodd bynnag, ystyriwyd bod hyn yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau diwylliannol sy'n effeithio ar y gyfran o ferched sy'n sefyll yn etholiadau'r cyngor, neu'n parhau i ddal swyddi cynghorwyr.
- Croesawyd y gostyngiad yn lefel y rheoleiddio a hyrwyddo hunanasesu ac asesiadau gan gyfoedion, ond roedd pryder ynghylch troi modelau wedi'u datblygu gan y sector a modelau gwirfoddol llwyddiannus yn system reoleiddio ac asesu statudol ragnodol. Dylai'r trefniadau ar gyfer hunanasesu, adolygiadau gan gyfoedion, craffu, archwilio ac adolygiadau allanol fod yn ategol ac wedi'u cydgysylltu gyda dealltwriaeth glir o briodolrwydd pawb dan sylw a'r cysylltiadau rhyngddynt. Mae rôl hunanasesu mewn trefniadau gwella awdurdodau, a rôl bosibl adolygiadau gan gyfoedion, yn ategu yn hytrach na chymryd lle'r atebolrwydd annibynnol, y gwrthrychedd a'r ddealltwriaeth sy'n gysylltiedig ag archwiliadau allanol. Mae'r trefniadau cydgysylltu presennol a ddarparwyd gan Arolygu Cymru yn briodol ac yn osgoi gwariant ac aneffeithlonrwydd diangen.
- Dylai fod mwy o gydweithredu a chysoni gofynion adrodd rhwng y cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio yn cynnwys y pedwar corff comisiynu y mae bellach yn ofynnol iddynt baratoi adroddiadau ar berfformiad hefyd.
- Roedd hi'n werth parhau i archwilio Pwyllgorau Ardal Cymunedol, o gofio gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i ddiffinio 'ardaloedd cymunedol'.
- Mae cyfansoddiadau awdurdodau lleol eisoes yn seiliedig ar fodel cytûn. Mae'r rhan fwyaf o'r agweddau ar y cyfansoddiad eisoes wedi'u hysgrifennu mewn iaith 'gyffredin'. Bydd gor-symleiddio'r cyfansoddiad yn arwain at ddryswch a chamddechongli, yn arbennig pan fydd y cyfansoddiad ei hun bob tro'n gorfod cael blaenoriaeth. Awgrymwyd 'Canllaw i'r Cyngor' neu 'Siarter Trigolion' amgen.
- Croesawyd pwerau ychwanegol mewn perthynas ag osgoi trethi busnes annomestig. Awgrymwyd y dylid creu gweithgor yn erbyn osgoi trethi busnes dan arweiniad Llywodraeth Cymru.
- Croesawyd y cynnig i alluogi hysbysiadau o gyfarfodydd a phapurau eraill i gael eu cynhyrchu'n electronig yn unig.
- Cefnogaeth i ddiddymu pleidleisiau cymunedol drwy gyflwyno system e-ddeisebau yn eu lle.
- Ni ddylai Llywodraeth Cymru fod yn rhagnodol ynghylch llunio strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd.

C21. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid diddymu Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer pob 'Awdurdod Gwella'. A ydych yn cytuno? Pam?

Nifer yr ymatebwyr	44
Cytuno	39
Angen rhagor o wybodaeth	3
Arall	2



3.21.1. Cytunodd bron bob un (89%) o'r 44 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn y dylid diddymu Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer pob 'Awdurdod Gwella'.

3.21.2 Nid anghytunodd yr un ymatebydd yn benodol, ond gwnaeth yr 11% sy'n weddill sylwadau eraill gan awgrymu bod angen mwy o wybodaeth arnynt cyn iddynt allu llunio barn wybodus.

3.21.3 Cytunodd pob un o'r 16 awdurdod lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn am resymau gwahanol. Roedd y rhain yn cynnwys y safbwyntiau canlynol:

- bod Rhan 1 o'r Mesur yn arwain at ddyblygu gwaith;
- bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn darparu fframwaith newydd i weithio o'i fewn;
- bod y dyletswyddau adrodd a phennu amcanion statudol ar wahân rhwng Rhan 1 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn peri dryswch;
- byddai dileu Rhan 1 yn cynyddu atebolrwydd.

3.21.4 Byddai'r cynnig hwn yn effeithio ar Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Cytunodd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru gyda'r rhesymau a roddwyd gan awdurdodau lleol, gan nodi bod y cynnig yn dangos bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn aeddfedu o ran y modd y mae'n cynllunio perfformiad.


3.21.5 Yn yr un modd, cytunodd Parciau Cenedlaethol Cymru â'r cynnig gan dynnu sylw at y ffaith bod y trefniadau presennol yn rhoi baich anghymesur ar Barciau Cenedlaethol yng Nghymru mewn perthynas â chostau, o gymharu â'r rheini yn Lloegr a'r Alban.

Arwain Ardaloedd Lleol

C22. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai bod disgwyliadau gofynnol ar Gyngorwyr i ryngweithio â'u hetholwyr lleol.

A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Os felly, beth ddylai'r disgwyliadau gofynnol hyn fod?

Nifer yr ymatebwyr	67
Cytuno	56
Anghytuno	9
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	2



3.22.1 O blith y rhai wnaeth fynegi barn, roedd 84% yn cytuno â'r cynnig. Roedd rhai o'r syniadau mwyaf cyffredin a gyflwynwyd yn cynnwys:

- adroddiad blynyddol;
- lefel ofynnol o weithgarwch o fewn yr etholaeth;
- mwy o gyhoeddusrwydd i'w gwaith a'u cyfarfodydd;
- nifer gofynnol o bobl yn bresennol mewn cyfarfodydd;
- defnyddio llwyfannau digidol yn amlach;
- cylchlythyr rheolaidd;
- Ymgysylltu'n fwy â'r cyhoedd, busnesau, plant a phobl ifanc.

3.22.2 Cytunodd mwyafrif y cynghorau tref a chymuned (wyth allan o naw) â'r cynnig, ac o ran y disgwyliadau gofynnol, roeddent yn rhannu'r un farn â'r grŵp rhanddeiliaid ehangach.

3.22.3 Roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol o blaid y cynnig hwn. Fodd bynnag, nid oedd tri awdurdod na Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gefnogol. Y rheswm mwyaf cyffredin dros anghytuno oedd am eu bod o'r farn mai awdurdodau lleol ddylai bennu'r disgwyliadau hyn ac nid Llywodraeth Cymru dan fandad. Cytunodd tri awdurdod lleol arall â'r cynnig, gan ddweud na ddylai unrhyw ddisgwyliadau fod yn statudol.

3.22.4 Roedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd o'r farn bod unrhyw ddisgwyliadau ychwanegol yn ddiangen, o gofio bod y cynghorwyr yn agored i'r gosb ddemocrataidd o golli eu swydd mewn etholiad.

C23. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol gwneud mân newidiadau i ddeddfwriaeth gyfredol ar bwyllgorau ardal er mwyn cynyddu eu hyblygrwydd.

Beth ddylai'r newidiadau hyn fod yn eich barn chi?

3.23.1 Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r 36 o ymatebwyr o blaid gwneud mân newidiadau i ddeddfwriaeth gyfredol ar bwyllgorau ardal. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd bod croeso i unrhyw newid a fyddai'n arwain at fwy o hyblygrwydd.

3.23.2 O'r saith awdurdod lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd pedwar yn gefnogol, ac roedd un yn anghytuno'n llwyr â defnyddio pwyllgorau ardal. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gefnogol. Ymatebodd Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol drwy ddweud y byddent yn hoffi gweld cynghorau tref a chymuned yn ymgysylltu'n fwy â phwyllgorau o'r fath.

3.23.3 Codwyd pwyntiau eraill, heb lawer o gonsensws. Roedd y rhain yn cynnwys:

- bod angen gwella'r cyfathrebu â chymunedau lleol, gan gynnwys plant a phobl ifanc;
- dylid penderfynu ar unrhyw newidiadau yn lleol;
- nid yw pwyllgorau ardal o reidrwydd yn gwella cyfranogiad lleol a dylent gyd-fynd â'r ffiniau a bennwyd;
- dylai busnesau gael eu cynrychioli ar bwyllgorau ardal.

C24. Bydd y gofyniad i Awdurdodau Lleol weithio'n rhanbarthol yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gynghorwyr, yr Awdurdod Lleol a gweithwyr cyflogedig gydbwyso'r cyfrifoldebau sydd ganddynt i'w hardal leol, gyda'u cyfrifoldebau i'r rhanbarth mwy. Sut gellid cyflawni hyn orau?

3.24.1 Mynegwyd 80 barn gan 69 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn ynghylch y ffordd orau o gydbwyso gwaith cynghorwyr a gweithwyr cyflogedig y cyngor â'u hardal leol a'r rhanbarth mwy.

3.24.2 Awdurdodau lleol ddarparodd tua traean o'r safbwyntiau hyn, ac roedd eu hymatebion yn amrywiol. Nododd rhai awdurdodau y dylai cyfrifoldebau a disgrifiadau swydd clir fod yn rhan o'r ateb, ac roedd pedwar hefyd o blaid adolygu'r cod ymddygiad. Awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y dylai awdurdodau lleol benderfynu eu hunain, gyda chyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru. Soniodd pedwar awdurdod lleol nad oedd digon o wybodaeth yn y cynnig.

3.24.3 Cafodd themâu tebyg eu crybwyll fwy nag unwaith mewn ymatebion gan randdeiliaid eraill, a gwelwyd mai disgrifiadau swydd a chyfrifoldebau clir oedd yr ymateb mwyaf cyffredin (15% o'r ymatebion), wedi'i ddilyn gan arfer gorau (10% o'r ymatebion) ac yna adolygu codau ymddygiad (8% o'r ymatebion). Roedd yr awgrymiadau eraill yn cynnwys:


- canllawiau ac astudiaethau achos;
- hyfforddiant i'r gweithwyr cyflogedig dan sylw;
- ymgynghori ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- creu Siarter i Gynghorwyr er mwyn hyrwyddo'r safonau uchaf yn seiliedig ar Egwyddorion Nolan;
- ystyried protocolau rhannu data;
- dysgu o enghreifftiau tebyg mewn plismona rhanbarthol.

3.24.4 Amlygodd nifer o ymatebwyr y potensial ar gyfer gwrthdaro rhwng buddiannau, gan nodi'r anawsterau yn sgil gorfodi meddylfryd rhanbarthol yn ymarferol.

C25. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu rhoi cyfle i Awdurdodau Lleol ddychwelyd i fath o system bwyllgor os mai hynny sy'n diwallu amgylchiadau lleol orau.

Sut byddai'r dewis hwn yn gweithio orau yng nghyd-destun y cynigion ar gyfer trefniadau rhanbarthol newydd?

Nifer yr ymatebwyr	49
Cytuno	21
Anghytuno	14
Ddim yn siŵr pam bod hwn yn gynnig	5
Dim digon o wybodaeth / Dim barn	3
Arall	6



3.25.1 Gwelwyd anghytuno ymhlith y rhanddeiliaid o ran y cynnig i weithredu'r system bwyllgor. O'r 49 ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 43% oedd o blaid, ac roedd 39% arall o'r ymatebwyr naill ai'n anghytuno â'r cynnig neu ddim yn siŵr pam ei fod yn cael ei ystyried.

3.25.2 O blith yr 17 awdurdod lleol a ymatebodd, roedd mwy o gonsensws, gyda 12 naill ai'n anghytuno neu ddim yn siŵr pam bod y cynnig hwn yn cael ei ystyried. Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau'n ystyried bod dychwelyd at y system bwyllgor yn gam yn ôl, gydag un awdurdod yn nodi nad oedd tystiolaeth i "gyfiawnhau mynd yn ôl i system bwyllgor hen ffasiwn y gorffennol". Dywedodd un arall y byddai "newid system Llywodraeth Leol i fod yn fodel anweithredol yn gwneud y model 'Cyd-bwyllgor Llywodraethu' arfaethedig ar gyfer gweithio rhanbarthol yn anymarferol".

3.25.3 Roedd pedwar awdurdod o blaid y cynnig, ac nid oedd gan un farn. O blith y pedwar oedd o blaid, nododd dau fod ganddynt farn gymysg ynghylch y model, ond eu bod yn fodlon ei ystyried fel opsiwn. Nododd y ddau arall na fyddent wedi dewis defnyddio'r system hon.

3.25.4 Y tu hwnt i'r awdurdodau lleol, roedd y cynnig yn fwy poblogaidd; gyda 16 allan o'r 32 a ymatebodd yn cytuno a dim ond saith allan o'r 32 a ymatebodd yn anghytuno â'r cynnig (nid oedd gan y naw ymatebydd arall farn na sylwadau eraill).


3.25.5 Awgrymodd y rhai oedd o blaid fod y system bwyllgor arfaethedig yn fwy cynrychioliadol na'r system gabinet bresennol, a oedd yn gwneud y rhan fwyaf o'r cynghorwyr yn amherthnasol. Awgrymodd ymatebydd arall y byddai'r

system bwyllgor yn gwella trefniadau craffu, gan nodi bod y “system graffu bresennol mewn rhai awdurdodau lleol wedi cael ei chamddefnyddio er mwyn atal gwaith craffu a herio effeithiol yng nghyswllt gweinyddiaethau sy’n llywodraethu”. Awgrymodd un corff proffesiynol y gellid dysgu gwersi o ddefnyddio strwythurau pwyllgor llwyddiannus wrth gynllunio gwasanaethau.

C26. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn y gallai fod yn briodol i swyddi Uwch-swyddogion statudol perthnasol gael eu dynodi ar lefel ranbarthol yn unig os yw’r swyddogaethau’n cael eu cyflawni’n rhanbarthol.

A yw hyn yn briodol yn eich barn chi? Pam? Os felly, sut gellid cyflawni hyn orau?

Nifer yr ymatebwyr	59
Cytuno	23
Cytuno ond ALI ddylai benderfynu	2
Anghytuno	18
Anghytuno ag is-ranbarthau	3
Dim digon o fanylion / Heb benderfynu	8
Arall	5



3.26.1 Gwelwyd y cynnig i gyfyngu ar nifer y swyddi uwch-swyddogion statudol perthnasol yn y dyfodol yn ennyn ymateb tra gwahanol. Roedd 42% o’r ymatebwyr yn cytuno, tra bod 36% o’r ymatebwyr yn anghytuno â’r cynnig neu â’r syniad o is-ranbarthau. Roedd gweddill yr ymatebwyr naill ai heb benderfynu, gan nodi nad oedd digon o fanylion, neu wedi gwneud sylwadau nad oeddent yn uniongyrchol berthnasol i’r cwestiwn.

3.26.2 Ar y cyfan, roedd yr awdurdodau lleol yn erbyn y cynnig, gydag 11 o’r 16 yn ymateb gyda sylwadau negyddol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- gallai cael swyddogion statudol lleol a rhanbarthol arwain at wrthdaro rhwng buddiannau;

- byddai swyddi o'r fath yn creu perthnasoedd cymhleth o ran cyfrifoldeb ac atebolrwydd a allai danseilio, yn hytrach na gwella, trefniadau gweithio rhanbarthol;
- byddai swyddi rhanbarthol yn gwrth-ddweud yr angen am atebolrwydd lleol sydd, yn ôl pob golwg, yn hanfodol i'r cynigion sy'n ategu'r Papur Gwyn;
- nid yw'r egwyddor nad oes gan awdurdod sofran lleol swyddog statudol yn risg y dylai llywodraeth leol ei chymryd.

3.26.3 Dim ond un awdurdod lleol ymatebodd o blaid hyn, gan nodi "efallai fod hyn yn briodol ond awdurdodau partner ddylai benderfynu ar y mater o hyd".

3.26.4 Cafwyd 43 o ymatebion gan sefydliadau ac unigolion y tu allan i'r awdurdodau lleol, lle'r oedd yr ymateb yn fwy ffafriol, ar y cyfan, gyda 51% yn cytuno, o gymharu â 21% yn anghytuno.

3.26.5 O blith yr ymatebion cadarnhaol, awgrymodd corff cyhoeddus y dylai cael un swyddog rhanbarthol ar gyfer gwasanaeth arwain at "ganolbwyntio'n fwy ar ddyrannu adnoddau i'r ardaloedd sydd fwyaf mewn angen ac, ar yr un pryd, osgoi dryswch ynghylch awdurdod a phlwyfoldeb". Heb swyddi uwch-swyddogion rhanbarthol, awgrymodd un arall na fydd "rheolaeth gydlynol, gan danseilio gwerth am arian". Yn ogystal â hyn, nododd un cyngor tref ei gefnogaeth, gan ddweud ei fod am "gynnal cysondeb o ran darparu gwasanaethau a safonau gwasanaethau ledled yr ardal ac osgoi dyblygu. Fodd bynnag, byddai'n bosibl cael dirprwy swyddogion ar lefel awdurdodau lleol o hyd, os yw'n fanteisiol gwneud hynny ar gyfer gwasanaethau/swyddogaethau penodol".

Cynghorau Cymuned

C27. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod pethau y gellir eu gwneud yn awr i helpu i feithrin cadernid ac adnewyddiad yn y sector yn y tymor byr i'r tymor canolig. Byddai'n croesawu sylwadau ar y rhestr o gamau gweithredu ym mharagraff 6.1.6 y gellid eu cymryd yn y tymor byr i helpu'r sector i fod yn fwy effeithiol/cadarn, a barn ar unrhyw gamau gweithredu eraill y gellid eu cymryd.

3.27.1 Roedd cefnogaeth, mewn egwyddor, i'r adolygiad cynhwysfawr arfaethedig o'r sector cynghorau cymuned a'r 'agenda ar gyfer gweithredu' yn y tymor byr i'r tymor canolig. Fodd bynnag, mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder hyd nes y cânt eglurhad o gwmpas yr arolwg.

3.27.2 Croesawyd y cysyniad o gynhyrchu pecyn cymorth i gefnogi'r gwaith o drosglwyddo gwasanaethau / asedau i gynghorau cymuned. Fodd bynnag, awgrymwyd y dylai hyn adlewyrchu maint, capasiti ac uchelgais gwahanol cynghorau cymuned.

Yn y cyd-destun hwn, roedd galw am gael mwy o eglurder o ran y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau 'statudol' a 'dewisol' a rhaniad cyfochrog rhwng y gwasanaethau a ddarperir gan brif awdurdodau lleol a'r rheini a ddarperir gan gynghorau cymuned.

3.27.3 Awgrymwyd y dylai awdurdodau lleol gynnig cymorth busnes a seilwaith cefn swyddfa priodol wrth i wasanaethau ac asedau gael eu "datganoli", er enghraifft, seilwaith a sgiliau TG, meddalwedd ac offer busnes, gwasanaethau caffael, gwasanaethau cyfreithiol. Fel y mae, mae'n bosibl nad oes gan gynghorau cymuned ddigon o wybodaeth, arbenigedd a sgiliau i weithredu gwasanaethau wedi'u datganoli yn ymarferol, a byddai cymorth busnes yn helpu i ryw raddau i fynd i'r afael â'r anhawster.

3.27.4 Ar y cyfan, ystyriwyd bod hwyluso clystyrau o gynghorau cymuned llai o faint yn ddefnyddiol, er bod rhai yn gwrthwynebu hyn. Credwyd y byddai'r cynghorau hynny ag archebiant mwy yn rhoi cymhorthdal i'r rhai llai o faint, ac na fydd cynghorau llai o faint o bosibl yn cael eu clywed mewn clystyrau.

3.27.5 Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at y perthnasoedd cadarnhaol rhwng cynghorau cymuned ac awdurdodau lleol a'r ffaith bod hyn yn fwyfwy pwysig wrth i gynaliadwyedd gwasanaethau lleol iawn gael ei ystyried o gofio bod nifer yr adnoddau'n lleihau. Soniwyd am absenoldeb unrhyw gyfeiriad yn y Papur Gwyn ar siarteri cynghorau cymuned, o gofio'r pwyslais a'r ymdrech flaenorol a oedd yn gysylltiedig â'r rhain.

3.27.6 Roedd cefnogaeth i godi ymwybyddiaeth o gynghorau cymuned er mwyn annog cyfranogiad a chynyddu amrywiaeth. Fodd bynnag, roedd pryder hefyd y byddai ymestyn rôl cynghorau cymuned yn atal pobl rhag peidio â dod yn gynghorwyr, gan fod y disgwyliad a'r ymrwymiad amser yn cynyddu, ar gyfer pobl sydd, i bob pwrpas, yn wirfoddolwyr.


3.27.7 Roedd Un Llais Cymru o blaid symud tuag at gymhwysedd cyffredinol cynghorau lleol, ond credai fod angen bod yn ofalus er mwyn osgoi sefyllfa lle bo gwahaniaeth clir ac amlwg rhwng y ddwy "haen" o gynghorau cymuned. Dylai'r profion gymhwysedd ar gyfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol fod yn gam calonogol ac esblygiadol ar gyfer yr holl gynghorau. Dywedwyd hefyd bod cynghorwyr sy'n cael eu cyd-ethol, yn hytrach na'u hethol yn uniongyrchol, yn gallu dod ag amrywiaeth o sgiliau a phrofiad i gyngor. Felly, ni ddylid ystyried y ffaith bod cyfran benodol o aelodau'r cyngor wedi'u cyd-ethol yn beth negyddol o gwbl.

3.27.8 Roedd barn gymysg o ran a ddylai hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr cymuned fod yn orfodol.

Etholiadau a Phleidleisio

C28. Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio safbwyntiau cychwynnol ar yr holl gynigion sydd wedi'u cynnwys ym Mhennod 7 ar etholiadau a phleidleisio.

Nifer yr ymatebwyr	31	Nifer yr ymatebwyr	28
Pleidlais sengl drosglwyddadwy	17	Gostwng yr oedran pleidleisio	25
Y cyntaf i'r felin	14	Peidio â gostwng yr oedran	3



3.28.1 Roedd y Papur Gwyn yn nodi nifer o gynigion yn ymwneud ag etholiadau a phleidleisio. Rhoddodd cyfanswm o 76 o ymatebwyr 158 o sylwadau ar y cynigion hyn.

3.28.2 Roedd a wnelo dau o'r cynigion â rhoi'r dewis i awdurdodau lleol newid eu system bleidleisio o system y cyntaf i'r felin i bleidlais sengl drosglwyddadwy; a gostwng yr oedran pleidleisio o 18 i 16.

3.28.3 O ran dewis, roedd 33 allan o'r 35 o ymatebwyr a wnaeth sylwadau am y cynnig hwn yn anghytuno a byddai'n well ganddynt gadw un system bleidleisio ar gyfer Cymru gyfan. Y prif reswm dros hyn oedd y gallai arwain at ddryswch ymhlith y cyhoedd pe bai gan awdurdodau cyfagos systemau pleidleisio gwahanol.

3.28.4 Er nid oedd y Papur Gwyn yn gwahodd barn ar rinweddau cymharol bob system bleidleisio, cymerodd 31 o ymatebwyr y cyfle i fynegi barn gyda 45% yn ffafrio cadw'r dull cyntaf i'r felin a 55% yn ffafrio system bleidlais sengl drosglwyddadwy. Y prif reswm dros fod o blaid cadw'r system gyntaf i'r felin oedd ei fod yn syml, hawdd ei ddefnyddio a bod y cyhoedd yn deall y system hon yn well na'r bleidlais sengl drosglwyddadwy. Cyflwynwyd sylwadau mwy manwl gan y rheini o blaid newid i bleidlais sengl drosglwyddadwy. Roedd y sylwadau'n nodi bod y system yn cynnig mwy o gymesuredd ac yn golygu bod pleidlais pawb yn cyfrif, mae'n lleihau seddi di-ymgeisydd, yn annog amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr ac yn annog ymgysylltiad pleidleiswyr.

3.28.5 Roedd gostwng yr oedran pleidleisio yn gynnig a gefnogwyd yn eang gydag 89% o'r ymatebwyr yn mynegi barn gytûn am y cynnig hwn. Y prif reswm dros hyn yw am ei fod yn beth cadarnhaol i hyrwyddo diddordeb a chyfranogiad pobl ifanc, ac y byddai'n "dod â bywyd newydd i wleidyddiaeth".

3.28.6 Roedd barn gymysg am y cynigion i dreialu trefniadau pleidleisio a chyfrif newydd. Roedd y rhan fwyaf o blaid (13 allan o 19 ymatebydd), gydag un awdurdod lleol o blaid "moderneiddio cofrestru etholiadol ac arferion etholiadau drwy, er enghraifft, ddigideiddio a phleidleisio symudol". Fodd bynnag, roedd rhywfaint o anghytuno, gydag ymatebwyr eraill yn cwestiynu gwerth am arian pleidleisio electronig a mwy o ofnau ynghylch diogelwch yn sgil y problemau hacio cyfrifiaduron diweddar. Mynegwyd hefyd bryder dros y posibilrwydd o dwyll neu orfodaeth sy'n ymwneud â phleidleisio drwy'r post ac yn electronig.

3.28.7 Mynegwyd ystod eang o safbwyntiau eraill am etholiadau a phleidleisio. Roedd y rhain yn cynnwys:

- barn gymysg am wneud tymhorau'r cyngor yn bum mlynedd o hyd;
- barn gymysg am y cynnig ar ffioedd y swyddog canlyniadau;
- cefnogaeth i ehangu pleidlais sengl drosglwyddadwy i'r etholiadau Cynulliad a Chynghorau Cymuned;
- cefnogaeth i gyhoeddi datganiadau etholiadol;
- cefnogaeth i'r cynnig i ofyn bod ymgeiswyr annibynnol yn nodi a ydynt yn aelod o blaid wleidyddol.

3.28.8 Fel y nodwyd yn y Papur Gwyn, bydd ymgynghoriad manylach arall ar ddiwygio etholiadau llywodraeth leol yn cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn 2017.

Asesiad o Effaith

C29. Byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu unrhyw safbwyntiau ar fanteision a chostau ariannol ac anariannol posibl sy'n gysylltiedig â'r cynigion yn y Papur Gwyn.

3.29.1 Cafwyd cyfanswm o 44 ymateb i'r cwestiwn hwn gan randdeiliaid, a gwnaed 54 o sylwadau. Er i lawer o'r ymatebion gydnabod bod potensial i wella gwasanaethau ac y dylai gweithio'n fwy strategol arwain at arbedion costau, roedd thema eang hefyd ei bod yn anodd mynegi barn ar y cam yma.

3.29.2 Adleisiodd ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hyn: "*Mae cynigion y Papur Gwyn ar gyfer diwygio yn debygol o gyflwyno manteision a chostau ariannol ac anariannol sylweddol; mae'r prif gynigion yn amlinellu'r diwygiadau strwythurol mawr i ddarparu rhai o feysydd gwasanaeth mwyaf llywodraeth leol. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn gymhleth ac yn cynnwys amrywiaeth o newidynnau ac mae'n rhy gynnar i wneud unrhyw asesiad o'r*

costau, y manteision neu'r risgiau tebygol heb gynnal dadansoddiad manwl fesul gwasanaeth gan ddefnyddio'r 'profion ategol' fel fframwaith".

3.29.3 Dywedodd y Gymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol hefyd fod costau, manteision a risgiau'r cynigion yn y Papur Gwyn yn sylweddol.

3.29.4 Roedd 6 allan o'r 11 awdurdod lleol a ymatebodd o'r farn bod y manteision a'r risgiau posibl yn anodd eu hamcangyfrif neu eu mesur, yn bennaf am na fydd y manteision yn glir hyd nes bydd y trefniadau newydd wedi cael eu gwerthuso a'u rhoi ar waith. Roedd Sir Fynwy o'r farn bod nifer y cynigion yn frawychus ac nad oedd modd eu cyflawni o gofio faint o adnoddau sydd gan lywodraeth leol ac awgrymodd y dylid pennu nodau realistig i'w cyflawni erbyn 2020 a 2025 er mwyn rhoi ffocws i'r ddadl.

3.29.5 Pwysleisiodd yr ymatebwyr eraill fod angen canolbwyntio ar ganlyniadau ac nid ar arbedion ac na ddylai diwygio arwain at unrhyw fiwrocratiaeth ddiangen.

C30. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Papur Gwyn yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw.

a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad?

3.30.1 Cafwyd cyfanswm o 33 o ymatebion a gwnaed cyfanswm o 38 o sylwadau. Gellid rhannu'r ymateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn yn dair rhan gyfartal gyda thraean (hy wyth) yn credu bod rhanbartholi gwasanaethau Cymraeg yn beth cadarnhaol; traean yn dweud eu bod yn cefnogi'r asesiad; a thraean yn dweud bod pobl yn canolbwyntio gormod ar ystyriaethau ieithyddol.

3.30.2 Awgrymodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Un Llais Cymru y gallai mynediad pobl at wasanaethau a chyfleusterau Cymraeg fod yn y fantol pe bai cynigion yn cael eu datblygu heb roi mesurau diogelwch ar waith a fyddai'n galluogi mynediad o'r fath i barhau, neu hyd yn oed i gael ei ymestyn. Cwestiynodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd a fyddai cael cyd-bwyllgorau, na chawsant eu hethol yn uniongyrchol, yn "atgyfnerthu gallu siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt".

3.30.3 Dywedodd Cyngor Ceredigion a Chyngor Powys y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal. Nododd Ceredigion fod ganddo weithlu sy'n cynnwys 55% o siaradwyr Cymraeg a mynegodd bryder y gallai fod yn rhaid iddo ddelfio â nifer mwy o achosion nag ardaloedd eraill. Pe bai hyn yn cael ei ddatblygu, byddai angen rhoi trefniadau cilyddol ar waith ar gyfer cyflenwi yn ystod absenoldebau. Byddai cynllunio iaith Gymraeg yn fater heriol. Cododd

Cyngor Sir Ynys Môn faterion yn ymwneud â gwasgariad siaradwyr Cymraeg a staffio. Adleisiodd ymatebion eraill y safbwyntiau hyn gyda Heddlu Gogledd Cymru yn nodi y dylid rhoi mwy o gefnogaeth i hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog ac i ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, yn ei ymateb, mynegodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan broblemau o ran recriwtio dros y ffin (Cymru/Lloegr) mewn amgylchedd cystadleuol. Dywedodd y dylid nodi'n glir wrth recriwtio a yw'r gallu i siarad Cymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Nodwyd ymrwymiad Cyngor Gwynedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a'r niwed posibl o greu un rhanbarth ar gyfer Gogledd Cymru gyfan.

b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?

3.30.4 Cafwyd cyfanswm o 12 ymateb i'r cwestiwn hwn. Awgrymodd pump o'r ymatebion y dylai fod llai o bwyslais ar yr iaith Gymraeg.

3.30.5 Roedd gan ddau awdurdod lleol bryderon ynghylch costau bodloni gofynion yr iaith Gymraeg. Roedd ymatebwyr eraill yn bryderus na ddylid rhoi gwasanaethau iaith Gymraeg presennol mewn siroedd fel Gwynedd a Cheredigion yn y fantol drwy ddarparu eu gwasanaethau gydag awdurdodau cyfagos sydd â darpariaeth iaith Gymraeg sy'n llai datblygedig o lawer. Yn yr un modd, ni ddylai'r newidiadau arfaethedig arwain at ddefnyddio llai o'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth fewnol yn yr awdurdodau hyn. Dywedodd un ymatebydd y dylid annog Cyngor Ceredigion i gytuno ar drefniant rhanbarthol â Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy er mwyn cryfhau sefyllfa'r iaith.

3.30.6 Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y gallai etholiadau uniongyrchol i awdurdodau rhanbarthol fynd i'r afael â'r broblem o lai o ddylanwad mewn ymateb i'w sylwadau am gyd-bwyllgorau yng Nghwestiwn 30a.

C31. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Papur Gwyn yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn ar blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw.

a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad?

3.31.1 Cafwyd cyfanswm o 25 o ymatebion a rhoddwyd cyfanswm o 28 o safbwyntiau. Roedd saith ymateb yn croesawu ac yn cefnogi'r asesiad, yn cynnwys tri awdurdod lleol.

3.31.2 Nodwyd y byddai mwy o allu a chadernid yn galluogi gwelliannau wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau, gan gefnogi awdurdodau lleol i barchu hawliau a buddiannau plant a'u bodloni. Er bod cydweithio'n debygol o gynyddu capasiti gwasanaethau ar draws y rhanbarth, byddai angen sicrhau bod digon o adnoddau i alluogi ymgysylltiad lleol mewn ffyrdd sy'n targedu cymunedau gwahanol a grwpiau poblogaeth gwahanol. Nid yw'r

dull cyd-gynhyrchiol hwn yn addas i bawb ac mae'n rhaid ystyried anghenion unigol grwpiau yn cynnwys pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; plant sy'n derbyn gofal, plant a phobl ifanc anabl a gofalmwr ifanc.

3.31.3 Dywedodd Urdd Gobaith Cymru fod y cynigion yn gallu cryfhau atebolrwydd a democratiaeth i bobl ifanc dros 16 oed drwy beri i awdurdodau lleol wella eu dealltwriaeth o anghenion plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roeddent yn poeni y byddai uno a darparu gwasanaethau'n rhanbarthol yn golygu y byddai darpariaeth leol yn dioddef yn sgil hynny.

3.31.4 Yn ôl dau ymateb, dylid sicrhau cydbwysedd rhwng canlyniadau cadarnhaol a chanlyniadau y gellir eu cyflawni. Roedd cynnwys pobl i fod â rheolaeth dros ddyfodol eu cymunedau yn ganmoladwy. Fodd bynnag, rhaid cwestiynu gallu cymunedau, sydd eisoes dan straen economaidd a chymdeithasol, i wneud hyn.

3.31.5 Yn ôl yr ymatebion eraill, dylid ymgynghori â phlant a phobl ifanc wrth wneud unrhyw benderfyniadau lleol i ailgyflunio gwasanaethau. Dylent gael dylanwad a mynediad cyfartal dros yr agenda lleidyddol mewn perthynas â gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed.

3.31.6 Mynegodd Plant yng Nghymru a Chomisiynydd Plant Cymru eu siom fod y gofyniad arfaethedig i awdurdodau lleol sefydlu Cyngor Ieuenctid wedi dod i ben. Nid oeddent yn cytuno y byddai cael strwythur o'r fath yn 'cyfyngu'n ormodol'. Roedd ymgysylltu â Chyngor Ieuenctid yn un o nifer o ffyrdd y gallai awdurdodau lleol ymgysylltu'n ystyrlon â strwythur parhaol. Byddai unrhyw adnoddau a gollir drwy gau Cyngorau Ieuenctid sydd eisoes ar gael yn cael effaith negyddol ar ddwyn pobl ifanc ynghyd yn genedlaethol i ymgysylltu â Gweinidogion, ac yn tanseilio'r gwaith o gyflwyno deddfwriaeth gyfredol sydd wedi'i chynllunio i gynyddu ymgysylltiad.

3.31.7 Nododd Plant yng Nghymru hefyd fod dyletswydd yn Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i awdurdodau lleol hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt a chyhoeddi a diweddarau gwybodaeth am ei drefniadau. Mae'r ymgynghoriad yn nodi nifer o effeithiau negyddol posibl ar blant a phobl ifanc y mae angen eu hystyried o'r cychwyn cyntaf.

3.31.8 Tynnodd Comisiynydd Plant Cymru sylw at y materion a nodwyd yn Adolygiad Hill ynghylch patrymau daearyddol gwahanol rhwng addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Datganodd y Comisiynydd fod yn rhaid cydweithio'n gyson yn lleol ac yn rhanbarthol ar draws gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn i weithio integredig gefnogi anghenion hollistaidd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd mewn modd effeithiol.

b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?

3.31.9 Cafwyd pump ymateb i'r cwestiwn hwn. Nododd dau ymatebydd y dylid trin pob grŵp yn gyfartal. Ailadroddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y gallai etholiadau uniongyrchol i awdurdodau rhanbarthol fynd i'r afael â'r broblem o lai o ddylanwad mewn perthynas â phwyllgorau rhanbarthol. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot o'r farn bod yr asesiad yn ddigonol ond nad oedd digon o fanylion yn y cynigion iddynt lunio barn derfynol. Dywedodd un ymatebydd fod angen ystyriaeth bellach.

C32. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Papur Gwyn yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn ar grwpiau sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw.

a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad?

3.32.1 Cafwyd 21 o ymatebion, gydag wyth yn cefnogi'r asesiad yn llwyr. Amlygwyd pwysigrwydd ystyried cleifion y mae'n rhaid iddynt deithio y tu hwnt i Gymru i gael gofal iechyd. Byddai angen gwybodaeth i esbonio i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth a'r rheini mewn grwpiau sy'n cael eu diogelu sut y byddent yn cael mynediad at wasanaethau yn unol â threfniadau gweithio rhanbarthol.

3.32.2 Dywedodd CLA Cymru fod ardaloedd a chymunedau gwledig yn aml o dan anfantais mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus ac y dylai'r adolygiad o lywodraeth leol geisio mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn. Dylid ystyried cyflwyno strategaeth addas sy'n ystyriol o ardaloedd gwledig.

3.32.3 Tynnwyd sylw mewn ymatebion eraill at effaith gadarnhaol bosibl cynnig y Bleidlais Sengl Drosgrwyddadwy, a fyddai'n arwain at grŵp mwy amrywiol o aelodau etholedig. Roedd eraill yn poeni y byddai cyfyngu ar weithio hyblyg/colli swyddi yn effeithio'n anghymesur ar ferched.

b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?

3.32.4 Cafwyd cyfanswm o 11 ymateb i'r cwestiwn hwn. Er bod adran 2 yn nodi'r effeithiau negyddol posibl, amlygodd un ymatebydd nad oedd tystiolaeth bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ystyried lliniaru'r materion hyn. Dywedodd ymatebydd arall fod angen i awdurdodau lleol gael mwy o adnoddau i ymgysylltu â chymunedau dan anfantais. Roedd angen mynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â thlodi a chyfrifoldebau gofal hefyd er mwyn i'r aelodau etholedig fod yn fwy amrywiol.

3.32.5 Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru er bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi nodi bod cynigion y Papur Gwyn yn "debygol o gael effaith gadarnhaol ar bobl o bob oed", roedd angen rhagor o fanylion ar beth fyddai'r cynigion yn ei olygu i'r boblogaeth hŷn a sut y gallai diwygio

llywodraeth leol helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol a chynaliadwy i bobl hŷn ledled Cymru.

3.32.6 Awgrymodd un ymatebydd y dylid cyflwyno targedau neu gwtâu ar gyfer pleidiau gwleidyddol mewn perthynas ag ymgeiswyr benywaidd.

Sylwadau Eraill

C33. Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar gynnwys y Papur Gwyn hwn.

3.33.1 Roedd y cwestiwn olaf yn yr ymgynghoriad hwn yn gyfle i'r rhanddeiliaid wneud unrhyw sylwadau eraill am y Papur Gwyn. Mynegodd 80 o ymatebwyr yn fwy na 130 o safbwyntiau.

3.33.2 Roedd y sylwadau'n amrywio'n eang ac roedd sawl un yn canolbwyntio ar faterion penodol sy'n effeithio ar randdeiliaid. Er enghraifft, awgrymodd Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol y byddai'n awyddus i gyfrannu at ddatblygu polisi yng nghyswllt gweithlu llywodraeth leol a'r newidiadau llywodraethu arfaethedig i Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Yn yr un modd, pwysleisiodd Cyngor Celfyddydau Cymru bwysigrwydd y celfyddydau o ran lles, creu swyddi a datblygu economaidd; a nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru y dylid rhoi mwy o bwyslais ar iechyd y cyhoedd yn y Papur Gwyn.

3.33.3 Yr ymateb mwyaf cyffredin, sef tua 13% o'r ymatebion, oedd nad oedd digon o fanylion yn nifer o'r cynigion yn y Papur Gwyn, gan wneud y dasg o lunio barn gadarn yn anodd mewn rhai achosion.

3.33.4 Mynegodd tua 11% o'r ymatebwyr, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn awdurdodau lleol, bryderon y byddai gweithio rhanbarthol, mewn egwyddor, yn arwain at atebolrwydd lleol annigonol.

3.33.5 Roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin ar ôl hynny yn nodi bod y cynigion yn gymhleth i'w deall ac, felly'n anodd cynnig barn arnynt; a bod fformat y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad yn eu gwneud yn anodd eu hateb.

3.33.6 Ymhlith y sylwadau eraill a wnaed gan dri neu fwy o ymatebwyr roedd:

- byddai'r cynigion yn ychwanegu haen ddiangen o lywodraeth leol;
- bod angen mwy o asesiadau strategol ar y cyd;
- ni sonnir am ryddid ariannol yn y Papur Gwyn;
- diffyg cyfeiriadau at enghreifftiau o gydweithio ag awdurdodau yn Lloegr;
- cefnogaeth i'r pŵer cymhwysedd cyffredinol;
- diffyg cydnabyddiaeth yn y Papur Gwyn fod rhanbartholi eisoes yn digwydd yn wirfoddol.

4. Y Camau Nesaf

4.1 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn. Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cyllid a Llywodraeth Leol ddatganiad am y ffordd ymlaen ar 18 Gorffennaf 2017.

4.2 Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori bellach ar 'Ddiwygio Etholiadau Llywodraeth Leol' ar 18 Gorffennaf.

4.3 Ar 27 Mehefin 2017, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y byddai Bil Llywodraeth Leol i roi cynigion Llywodraeth Cymru ar waith yn cael ei gynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol yn ystod ail flwyddyn tymor presennol y Cynulliad Cenedlaethol.

5. Rhestr yr Ymatebwyr

Cyngor Tref Abergele
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Cyngor Cymuned Gwaunysterfyn
Panel Dyfarnu Cymru
Cyngrhair Henoed Cymru
Panel Arbenigwyr Trwyddedu Cymru Gyfan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arvato UK
Y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus
Cymdeithas y Prif Arolygwyr Ystadau – Cymru
Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol
Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol
Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol (Cymru)
Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Audiominutes
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Cyngor Tref Bae Colwyn
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru
Cyngor Tref Caernarfon
50plus Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Tref Caerwys
Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cyngor Cymuned Caeriw
Cyngor Sir Gâr
Y Gwasanaeth Addysg Gatholig
Bwrdd Prosiect Cydwasanaeth Cyfreithiol y Canolbarth a De Orllewin Cymru
Cyngor Sir Ceredigion
Sefydliad Tai Siartredig Cymru
Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru
Sefydliad Siartredig Safonau Masnach

Plant yng Nghymru
Comisiynydd Plant Cymru
Cyngor Cymuned yr Ystog
Chwarae Teg
CIPFA
Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Dinas Caerdydd
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Tref Conwy
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru)
David Jones
David Sanders
Cyngor Sir Ddinbych
Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru
Dr Matthew Wall
Dr Mike Biddulph
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys
Dyfrig Jones
Comisiwn Etholiadol Cymru
Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
Cyngor Cymuned Esclus
Estyn
Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru
Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr
Cyngor Sir y Fflint
Frank Little
Geldards LLP
Archifau Morgannwg
Grŵp Cyngori ar Fioamrywiaeth Morgannwg
GMB
Partneriaethau Twf Canolbarth Cymru
Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent
Cyngor Gwynedd
Penaethiaid Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth – Gogledd Cymru

Helena Fox
Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn
Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM yng Nghymru
Prosiect Ymchwil Economaidd Hodge, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Cyngor Tref Treffynnon
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Cyngor Cymuned yr Hob
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Y Comisiynydd Gwybodaeth
Arolygu Cymru
Cyngor Sir Ynys Môn
James Jones
Jeffrey Elliott
Kathryn Charles
Kenneth Richards, MRTPI
Cyngor Cymuned Cilgeti Begeli
Grŵp Llafur Dinas a Sir Abertawe
Y Sefydliad Tirwedd
Cyngor Cymuned Trefgordd Talacharn
Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol (Cangen Cymru)
Cyngor Cymuned Llysfaen
Cyngor Cymuned Llandochoau
Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Gwlad Llanelli
Cyngor Tref Llanfairfechan
Cyngor Cymuned Llanfrynach
Cyngor Cymuned Llanstadwel
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Cyngor Cymuned Maenorbŷr
Martyn Vaughan
Matthew Harris
Menter Iaith Casnewydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cymdeithas Cynghorau Lleol y Canolbarth a Gogledd Cymru
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mineral Products Association
Cyngor Cymuned Mochdre a Phenystyriwaid

Cyngor Tref yr Wyddgrug
Cyngor Tref Trefynwy
Cyngor Sir Fynwy
Cymdeithas yr Amgueddfeydd
NASUWT
Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol Cymru
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Parciau Cenedlaethol Cymru
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Tref Castell-nedd
Cyngor Cymuned Maesyfed
Cyngor Dinas Casnewydd
Grŵp Llafur Casnewydd
Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn
Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru
Nicholas Webb
Cyngor Busnes Gogledd Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Heddlu Gogledd Cymru
Cyngor Cymuned Llaneurgain
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Un Llais Cymru
Owen Brown
Grŵp Ymgynghori PA
Paul Luckock
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Tref Penarth
Cyngor Cymuned Pentyrch
Cyngor Cymuned Penyrheol Trecenydd Energlyn
Persimmon Homes Gorllewin Cymru
Peter Smith
Cymorth Cynllunio Cymru
Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru
Pobl Group
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
Cyngor Sir Powys

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Cyngor Tref Llanandras a Norton
Yr Athro Denis Mollison
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Amddiffyn y Cyhoedd, Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Roger Evans
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
RSPCA Cymru
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI Cymru)
Scytl
Cyngor Cymuned Sesswick
Smartmatic
Gofal Cymdeithasol Cymru
Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
Cymdeithas Trysoryddion Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Fforwm Gwybodaeth De Cymru
Grŵp Swyddogion Cyswllt Tirwedd De Cymru a Grŵp Swyddogion Cyswllt Coed a
Thirwedd Gogledd Cymru
Cyngor Tref Sanclêr
Cyngor Cymuned Sain Ffagan
Steve Skivens
Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref
Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor
UNSAIN Cymru
Unlock Democracy
Urdd Gobaith Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Dyffryn Clwyd
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Grŵp Penaethiaid Iechyd Amgylcheddol Cymru
TUC Cymru
Wayne Morgan MBE
Gweithgor Llygru Tir Cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Conffederasiwn GIG Cymru
Heddluoedd Cymru – Prif Swyddogion
Cyngor Cymuned Llanddunwyd
Cyngor Tref y Trallwng
CLILC
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wreccsam
Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru
(Dienw x 16)